YR YMOFYNYDD.

RHIF 75.] TACHWEDD, 1853. [CYF. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

SYLWADAU AR GYTHREULIAID.

(Parhad o tud. 225.)

MR. YMOFYNYDD,—Y mae yn debyg na chaniata amgylchiadau ddim lle i ragor na dau lythyr oddiwrthyf fi, yn ychwaneg ar y Cythreuliaid; ac am hynny, rhaid gadael heibio lu o brofion mai eneidiau dynion wedi marw ydynt i'w deall yn y Cyfammod Newydd, wrth gythreuliaid. Etto, addas ydyw enwi un neu ddau o'r rhai mwyaf adnabyddus i'r Cymro, rhag i neb ddywedyd fy mod yn gwneuthur haeriadau, yn lle dwyn profion.

Y blaenaf a ddygaf ymlaen ydyw yr hanesydd Iuddewig Josephus—gwr dysgedig, ac adnabyddus a syniadau ei frodyr yr Iuddewon—efe ydoedd cadfridog ei genedl pan yn ymladd a Vespasian; ond er ei holl ddewrder, dinystrwyd Jerusalem gan y Rhufeiniaid, pan oedd oed Crist rhwng trugain-a-deg a phedwar ugain. Nid hawdd cael neb yn fwy adnabyddus a barnau yr Iuddewon nag ef. Yn ei hanes o'r rhyfel Iuddewig, neu ddinystr Jerusalem, dywed fel y canlyn (llyfr vii. p. 6, § 3):—mai "ysbrydion dynion drwg ydyw y cythreuliaid, y rhai ydynt yn myned i mewn i'r dynion byw, ac yn lladd y rhai nad ydynt yn derbyn un cynnorthwy." Fe addef pawb, yr ydwyf yn meddwl, mai cythreuliaid drwg oeddent y rhai hyn.

Y nesaf yn dyst, fi ddygaf Justin Martyr—gwr a anwyd yn Judea, a fagwyd yn bagan, ac a addysgwyd yn egwyddorion philosophyddol y Stoiciaid, y Peripateticiaid, y Pythagoreaid, a'r Platoniaid, ond yn ol llaw trodd yn Gristion, ac yr ydoedd yn byw yn agos i amser yr apostolion, yr ydoedd yn ei flodau tua 140 o oedran Crist. Mae y Cristion dysgedig hwn (heb un ofn ei fod yn gwrthddywedyd Crist a'i apostolion) yn dywedyd yn bendant, "mai dynion y mae *pawb* yn gytuno eu galw yn gythreulig *(demoniacs)* ydynt y bobl hynny y mae eneidiau dynion wedi marw yn eu cipio a'u taflu i lawr." Ac yr oedd ef ei hunan yn cytuno a'r lleill o'r byd mai eneidiau dynion meirw oedd y cythreuliaid oeddent yn meddiannu dynion;

oblegid yr ydoedd yn profi anfarwoldeb yr enaid trwy haeru fod dynion ym meddiant cythreuliaid (neu eneidiau anfarwol) pan y byddont allan o'u pwyll.

Gan gymmeryd yn ganiataol fod y dyfyniadau uchod yn ddigon i brofi mai eneidiau dynion drwg wedi meirw ydynt y cythreuliaid, a aflonyddent y gwallgofion a sonir am danynt yn y Cyfammod Newydd, af ym mlaen i esbonio yr adnodau yn y rhai y mae hanes am Grist yn bwrw allan gythreuliaid. Y lle blaenaf ydyw Matt. iv. 24, "A dygasant atto y rhai drwg eu hwyl, a'r rhai yr oedd amryw glefydau, a chnofeydd yn eu dala, a'r rhai *cythreulig*, a'r rhai lloerig, a'r sawl oedd a'r parlys arnynt: ac efe a'u hiachaodd hwynt." Iachaodd hwynt! Beth yw hynny ond efe a fwriodd y cythreuliaid allan o honynt? Dynion gwallgofus oeddent o'r blaen, ond yn awr wedi eu dwyn i'w iawn bwyll. Matt. viii. 16, "A hwy a ddygasant atto lawer o rai *cythreulig*, ac efe a fwriodd allan yr ysbrydion a'i air, ac a iachaodd yr holl gleifion." Dywedaf unwaith etto, fod y Paganiaid a'r Iuddewon hefyd wedi bod, os nad oeddent y pryd hwnnw, o'r farn fod eneidiau dynion drwg wedi marw, yn cymmeryd meddiant o ddynion byw, ac yn dwyn gwallgofrwydd a gloesion lewyg *(epilepsy)* arnynt, i'r achos hyn y priodolent bob clefyd ag ydoedd yn effeithio yn fawr ar y meddwl, a phan y caffai y cleifion gwbl iachâd, yr oeddent yn dywedyd fod y cythraul wedi myned, neu wedi ei fwrw allan o honynt. Yn unol a'r esboniad hyn y mae Matthew yn yr adnod nesaf yn dywedyd fod y broffwydoliaeth am dano yn cael ei chyflawni, fel hyn: "Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, Efe a gymmerodd ein gwendid, ac a ddug ein clefydau." Yn yr 28 ad., &c., y mae hanes fel hyn. "Ac wedi ei ddyfod ef i'r lan arall, i wlad y Gergesiad, dau ddieflig a gyfarfuant ag ef, y rhai a ddeuent o'r beddau, yn dra ffyrnig, fel na allai neb fyned y ffordd honno. Ac wele hwy a lefasant, gan ddywedyd, Iesu, Fab Duw, beth sydd i ni a wnelom a thi, a ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser? Ac yr oedd ym mhell oddiwrthynt genfaint o foch lawer yn pori. A'r cythreuliaid a ddeisyfasant arno, gan ddywedyd, os bwri ni allan, caniatta i ni fyned ymaith i'r genfaint foch. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch. A hwy wedi myned allan a aethant i'r genfaint foch. Ac wele yr holl genfaint foch a ruthrodd dros y dibyn i'r môr, ac a fuant feirw yn y dyfroedd." Mae yr un hanes i'w weled, ond ryw beth yn wahanol, yn Marc v. 1—16; ac hefyd yn Luc viii. 26—36. Yn y ddau efengylwr diweddaf, yr ydym yn darllen i'r cythreuliaid i ddywedyd eu bod hwy yn lleng, am eu bod yn llawer. Mawr y mae yr hanes hwn wedi ei beri o betrusder i esbonwyr y Cyfammod Newydd! Cymmerodd un y drafferth, yn y canrif diweddaf, meddai Heinekin, yn ei atteb i Carlisle o Dudley Hill, yn agos i Bradford, tud. 42, i fwrw pa sawl diawl, a darn o ddiawl, a aeth i bob mochyn, a chwedi cymmeryd yn ganiataol fod lleng yn 6500, a'r genfaint foch yn 2000, cafodd allan, yn ol rheolau arithmetic, fod tri diawl a chwarter ym mhob mochyn. Am ei drafferth gwobrwywyd ef a'r llysenw, "Doctor Hollti Diawl" *(Doctor Split Devil)*. Rhag cael enw o waeth mae yn bryd i minnau i bwyllo, ac ystyriaid a oes dim eglurhad o well i'w gynnyg na hwnna. Yr achos, y mae yn dra thebyg, eu bod yn rhodio rhwng y beddau, ydoedd, fod uwch ben y rhai hynny fath o dai cobyn *(cupolas)*, o bedair neu bum llath, ac y maent yn aml yn agored; ac felly yr oeddynt yn gwasgodi yr ynfydion a ystyrid yn ddrwg eu hwyl gan gythreuliaid. Yn ol y farn gyffredin, bodau ansylweddol ydyw ysbryd-

ion nad oes iddynt na hyd na lled, uchder na dyfnder; ac yr ydoedd fy hen athraw yng Nholeg Caerfyrddin, y Parch. D. Peter, yn dywedyd y gallai lleng o honynt ddawnsio ar flaen nodwydd, neu fyned i mewn oll ar y tro trwy un o dyllau ei chwys i ddyn heb iddo eu teimlo yn y mesur lleiaf. Pa fodd y mae dychymmygu fod gan y rhai hyn bennau a geneuau yn ddigon nerthol i grynu yr awyr, ac felly i beri i'w lleisiau fyned i glustiau apostolion a chanlynwyr Crist, nid ydwyf yn gwybod. Mae yn llawer mwy rhesymol i feddwl mai un o'r dynion gorphwyllog oedd yn llefaru, na bod ellyllon, heb dafod, dannedd, na genau, yn gwneuthur hynny; ac y mae ei iaith yn cydweddu yn well a'i ynfydrwydd, nag a phen bod mwy synwyrol na'r callaf o ddynion. Yn ei ynfydrwydd gofynnodd ganiatâd i'r cythreuliaid, yr ydoedd yn barnu oeddent ynddo, i fyned i'r genfaint foch, ac fel y gallai y tystion gael digonol brawf fod gwrthiau mewn gwirionedd yn cael eu cyflawni, dywedodd yr Iesu, "Ewch," a'r gwallgofrwydd yn ddioed a drosglwyddwyd i'r moch, a rhuthrasant dros y dibyn i'r môr. Bodau anfarwol y dywedir ydyw y cythreuliaid, ac am hynny, pa achos ydoedd ganddynt ofni cael eu hanfon i'r dyfnder?—nis gallid eu boddi yno, na'u lladd mewn un modd pa bynnag. Ond a barnu mai iaith dyn allan o'i bwyll sydd yma, y mae pob anhawsdra yn diflannu. Y canlyniad ydyw, fod y dyn, neu fel y dywed Matthew, y dynion wedi cael eu hadferu i'w iawn bwyll. Ni chaniata lle, y mae yn debyg, i ddilyn na'r cythreuliaid na'r moch hyn ym mhellach.

Af, gan hynny, at y mud cythreulig yn y ix. 32 o Matt., "Wele rhai a ddygasant atto ddyn mud cythreulig." Hawddach gennyf gredu mai dyn allan o'i bwyll ydoedd y mudan hwn, yn ofni llafaru rhag niweidio ei hunan, na bod un enaid anfarwol dyn drwg wedi rhwymo, neu ddala ei dafod. Cofied y darllenydd, mai arferu iaith sathredig a dealladwy y wlad oedd yr Efengylwr yn ei wneuthur, ac nid egluro y gwir achos o'u gwallgofrwydd. Dyn yn y *melancholy*, mae yn dra eglur, ydoedd hwn.

Matt. xii. 22, 24, "Yna y dygpwyd atto un cythreulig, dall, a mud; ac efe a'i *hiachaodd ef, fel y llafarodd ac y gwelodd y dall a mud* * * * Pan glybu y Phariseaid, hwy a ddywedasant, nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid, ond trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid." Y mae hi yn eglur, oddiwrth y 22ain, mai dan glefyd trwm yr ydoedd y dyn, yr hyn oedd yn effeithio ar ei lygaid a'i dafod mor fawr, fel nad ydoedd yn gallu eu defnyddio yn iawn. Nid oedd Matthew yn credu yn yr athrawiaeth o Drawseneidiad (*Metempsychosis*), hynny ydyw, fod enaid un dyn yn myned i mewn i'r llall neu leng o honynt, ac yn dwyn clefydau a gwallgofrwydd arnynt, er ei fod yn arferu iaith gyffredin am achos y clefydau, fel y mae yn arferol gan Brotestaniaid ein gwlad a'n hoes ni i'w wneuthur, er nad y'nt yn credu mai clefydau o dan lywodraeth seintiau ydyw, "Clefyd y Brenhin" (*King's Evil*), *Saint Anthony's Fire*, neu "Dân *Saint Anthony*," "Dawns *Saint Vitus*" (*Saint Vitus's Dance*), dynion lloerig, &c. Yr ydwyf, eisioes, wedi dangos mai mab *Nahemah* (ac nid Nahem*iah*—fel yr argraphwyd hi yn yr *Ymofynydd* diweddaf), chwaer Tubal Cain ydoedd Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid. Dyn wedi marw a chwedi cael ei ddychymmygu yn dduw gan baganiaid Ecron ydoedd. Ni chaniata lle i ychwanegu.

Dywed y wraig o Ganaan (xv. 22), "Y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythraul." Ac yn yr 28ain, dywed Matthew, "A'i merch a iachawyd

o'r awr hon allan." Prawf arall mai yr un peth y mae yr hanesydd yn feddwl wrth y geiriau "bwrw allan gythreuliaid," ac iachau y claf.

Yn xvii. 15, mae tad yn dwyn mab "lloerig ac yn flin arno," at yr Iesu. Er mai lloerig ydoedd, y mae yr ysgrifennydd yn dywedyd (18), "A'r Iesu a geryddodd y cythraul, ac efe a aeth allan o hono: a'r bachgen a *iachawyd* o'r awr honno." Wrth hyn, yr un ystyr sydd i "iachau'r lloerig," "bwrw allan gythreuliaid," "a iachau y claf."

Yr ydwyf yn barnu y gwna yr esboniadau uchod y tro i'n galluogi i ddeall pob lle arall yn Efengyl Matthew a Marc; gan hynny, af ym mlaen at yr Efengylwr a'r physigwr Luc (iv. 33—35), "Ac yn y synagog yr oedd dyn a chanddo ysbryd cythraul aflan, ac efe a waeddodd," sef y dyn, "a llef uchel, gan ddywedyd, Och! beth sydd i ni a wnelom a thi [*neu yn fwy cywir, Beth sydd a fynnot ti a ni*] Iesu o Nazareth? a ddaethost ti i'n difethu ni? Mi a'th adwaen pwy ydwyt; Sanct Duw. A'r Iesu a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, Dystawa, a dos allan o hono, &c." Gan fod y dyn hwn yn cael caniatâd i fyned i'r synagog, teg ydyw casglu ei fod weithiau, os nad fynychaf, yn ei iawn bwyll, ac yn gwybod, trwy hanes, os nid trwy fod yn llygad-dyst, fod yr Iesu yn arferu bwrw allan gythreuliaid. Y mae yn hollol wahanol yn ei ymddygiad oddiwrth y rhai oeddent yn rhodio rhwng y beddau; ond yr ydoedd yn credu yn gystal a llawer o'i gymmydogion, fod y cythreuliaid i gael eu difethu; a chan ei fod allan o'i bwyll, yr ydoedd yn ofni y cawsai ei ddifethu gyda hwynt. Ceisio cael esboniad synwyrlawn o eiriau gwallgofion, ydyw, chwilio am synwyr yng ngeiriau gwr allan o'i synwyrau, neu a dywedyd yn fwy cywir, dyn a'i synwyrau allan o hono ef; ond yn ol yr Idiom Gymraeg, dyn wedi colli ar ei synwyrau. Arferer yr esboniadau uchod gydag ychydig o bwyll, a byddir yn sicr o gael eglurhad digonol o iaith y pedwar Efengylwr. Ond cyn gadael, addas ydyw dywedyd gair neu ddau am y "ddewines" yn Phillipi: Act. xxi. 16. Nid hawdd darnguddio meddwl Luc yn fwy nag wrth gyfieithu *Tina echousan pneuma Puthonos*, sef, ysbryd neu gythraul, hynny ydyw, enaid anfarwol Apollo. Mae yn eglur i mi oddi yma, fod y Philippiaid yn credu fod Apollo, duw y doethineb, yn cynnorthwyo yr hudoles hon i ddarllen tesni, &c.

Gair neu ddau ar 1 Tim. iv. 1, sef, rhoddi coel i athrawiaethau cythreuliaid. Prophwydoliaeth am beth ydoedd i gymmeryd lle yn ol llaw yn yr Eglwys Grist'nogol sydd yma; sef y byddai i ddynion i gredu mewn amser fod eneidiau anfarwol yr Apostolion, Mair, &c., wedi eu gwneuthur yn seintiau, ac yn wrthrychau addoliad, a daeth ei ragweliad i ben. Nid ydwyf yn gweled un lle arall ag na ellir ei egluro megis uchod.

Yr oeddwn yn bwriadu ysgrifennu yn helaethach ar y ddadl hon; ond gan eich bod, Mr. *Ymofynydd*, yn dywedyd eich bod yn ofni y bydd yn rhaid i'n Cylchiolyn ddarfod gyda'r flwyddyn hon, ni ddywedaf ragor na fy mod yn gobeithio fod y darllenydd uniaith, yn awr, wedi cael ei foddloni mai athrawiaeth Paganiaid y Dwyrain, ac un Zoroaster, Pythagoras, Plato, &c.; ac nid Dadguddiad Duw yw yr athrawiaeth am gythreuliaid. Trawseneidiad y gwyr uchod, canys ni ddywedaf fod llaw gan dderwyddon *anadnabyddus* Cymru yn ffurfiad y fath ddychymmygion ofer, ydoedd dechreuad achos yr holl ofergoelion yng nghylch y daimoniaid, neu y cythreuliaid y sonid cymmaint yn yr amseroedd gynt am danynt.

Bydd wych, ddarllenydd, medd J. Jones.

CENHEDLIAD GWYRTHIOL CRIST.

(*Parhad o Tudal.* 230).

20. Mae yr ymadrodd hwn, "yr holl fyd," (Luc ii. 1) yn cael ei arfer yn gyffredin i arwyddoccau yr holl ymerodraeth Rufeinig. Yn awr, o'r holl haneswyr Iuddewig, Groeg, a Rhufeinig, y rhai ydynt wedi ysgrifennu am yr amser hwn, nid oes gymmaint ag un wedi crybwyll na chyfeirio at y trethiad hynod yn nyddiau Herod fawr, yr hwn a ddywedir yma iddo gymmeryd lle. Y mae Dr. Lardner yn addef pe buasai i'r fath drethiad gymmeryd lle trwy yr holl ymerodraeth Rufeinig; ei bod ymron yn amhossibl na fuasai iddo gael ei grybwyll gan rai o'r haneswyr. Y mae ef, gan hynny, yn ymdrechu symmud yr anhawsder trwy dybied mai meddwl yr ymadrodd hwn, yr holl fyd, yw gwlad Judea yn unig. I beidio sylwi ar y diffyg prawf i sefydlu yr ystyr gyfyngedig yma, ni chwanegwn.

21. Nad yw yn ymddangos fod ymerawdwyr Rhufain, ar yr amser hwn, yn ymyrraeth dim a threfniad cartrefol Judea. Yr oedd Herod fawr yn *frenhin* ar Judea, ac yr oedd trefniad y llywodraeth yn hollol yn ei law. Mae'n wir, mai gan ymerawdwr Rhufain y cafodd ei bennodi, a'i fod dan deyrnged iddo; ond nid dan oruchwyliaeth neu olygiaeth y Rhufeiniaid yr oedd trefniad matterion cartrefol hyd farwolaeth Herod, pan y rhannwyd y llywodraeth i detrachaethau.

22. A gadael fod gorchymyn o'r natur hyn wedi cael ei gyhoeddi gan Augustus, i wneuthur trethiad, cyfrifiad, neu gof-restriad yn Judea, y mae'n eithaf anhebygol y buasai pob dyn yn gorfod myned i'r ddinas neu'r dref y ganed ef. Y geiriau ydynt, "bob un i'w ddinas ei hun." Y dull cyffredin o ddwyn ymlaen y cyfrestriad Rhufeinig oedd cymmeryd yr enw yn y lle yr oedd y person yn aros; ac yn sicr, dyma'r dull mwyaf rhwydd a naturiol.

23. Y mae y rheswm pam yr oedd Joseph i fyned i Bethlehem yn hynod iawn; oblegid nid yw yn ymddangos mai ei le genedigol *ef* ydoedd, ond yn unig lle y ganed Dafydd, ac *am hynny*, o herwydd ei fod ef o lin-ach Dafydd, yr oedd yn rhaid iddo fyned i'w drethu yng ngenedigol le perthynas mor bell. A ydyw yn debygol y buasai ymerawdwr Rhufain i gyhoeddi y fath orchymyn?

24. A gadael fod gorchymyn o'r fath wedi ei roddi, yn ddiau y gwnai Joseph fyned ei hunan. Nid oedd un angenrheidrwydd, yn ol y defodau Iuddewig, i Mair fyned hefyd. Yn awr, os nad oedd yr angenrheidrwydd mwyaf, a ydyw yn debygol y buasai Mair, yn yr amgylchiad ag oedd hi, i fyned i daith mor bell a blinderus?

25. Gadewch fod gorchymyn wedi ei roddi i *bob un* fyned "i'w ddinas ei hun," benywaid yn gystadl a gwrywaid, pam y dylai Mair fyned i *Bethlehem?* Nid yw yn ymddangos oddiwrth y Testament Newydd, iddi hi gael ei geni yn Bethlehem, na'i bod hi wedi deillio oddiwrth Dafydd. Y tebygolrwydd yw, mai Nazaread ydoedd hi.

26. Ni chafodd Cyrenius ei wneuthur yn rhaglaw ar Syria, hyd ymhen deng mlynedd ar ol *marwolaeth* Herod! Ac yma fe ddywedir i Mair fyned i Bethlehem, i'r trethiad, pan *oedd* Cyrenius *yn* rhaglaw ar Syria, a thyma yr amser y ganed Crist, sef, deng mlynedd ar ol marwolaeth Herod oedd yn ymofyn lladd y plant o ddwy flwydd oed a than hynny, fel y gallasai ladd y Messiah trwy hynny! Herod yn roddi gorchymyn i ladd y plant ddeng mlynedd ar ol ei farwolaeth!! Y mae y ffaith hon yn sefyll ar awdurdod

ddiamheuol, ac yn wir, cyfaddefir hyn y gyffredinol fel peth nad yw i'w ammau. I'r diben i fyned dros yr anhawsder mawr hwn, y mae llawer tyb wedi cael ei gwneuthur. Y mae Dr. Lardner yn coffau, feddyliaf, wyth neu naw o wahanol ddehongliadau a chyfieithiadau a gawsant eu gwneuthur o'r ymadrodd hwn. Nis gellir disgwyl i mi eu dwyn ymlaen yma. Ni wnaf ragor na sylwi fod yr anhawsder yn ymddangos i mi, ar ol ymofyniad, heb gael ei symmud ymaith, ac fod yr ysgrifennydd yn euog o goll mawr mewn amseryddiaeth, os oedd am osod allan y trethiad hwn fel yn cymmeryd lle cyn marwolaeth Herod, a'n Hiachawdwr fel yn cael ei eni bryd hynny, o herwydd yr wyf yn chwanegu yn

27. Fod trethiad tebyg i'r un dan sylw, wedi cymmeryd lle mewn gwirionedd, ymhen ychydig ar ol i Cyrenius gael ei wneuthur yn rhaglaw ar Syria. Ond ni chymmerodd hyn le hyd ymhen deg neu ddeuddeg mlynedd ar ol marwolaeth Herod—ni chymmerodd le hyd nes darfu Judea a bod yn deyrnas, ac iddi gael ei rhannu i detrachaethau—hyd nes y cymmerodd y Rhufeiniaid arnynt i fesur helaeth, lywyddiaeth *cartrefol* y dalaeth. Yn awr *mae'r* gwirionedd hwn yn cael ei goffau gan haneswyr Iuddewig a Rhufeinig. Nid ydynt, mae'n wir, yn dywedyd fod pob dyn yn gorfod myned i'w ddinas ei hun, ond eu bod yn gyffredinol yn gorfod rhoddi eu henwau. Y maent yn dywedyd hefyd fod llywyddiaeth y cyfrifiad wedi cael ei ymddiried i Cyrenius rhaglaw Syria, yn bennaf.

28. Y mae llawer o amgylchiadau yn cydfyned a hanes y trethiad *hwn;* ddeg neu ddeuddeg mlynedd ar ol marwolaeth Herod, ag ydynt yn dangos mai hwn oedd y cyntaf a'r unig un o'r fath. Y mae Josephus yn dywedyd am dano fel hyn:—"Cyrenius, Seneddwr, a ddaeth gyda rhyw ychydig i Syria, wedi eu danfon yno gan Cesar, i weinyddu cyfiawnder i'r genedl, a threthu eu meddiannau. A daeth Cyrenius i *Judea, yr hon oedd wedi ei huno bryd hyn a Syria,* i'r diben i drethu meddiannau yr Iuddewon, a dosparthu *meddiannau Archelaus.* Ond ni ddarfu iddynt hwy, er yn arswydo hyd yn oed wrth *enw* yr ardrethiad, wneuthur dim rhagor o wrthwynebiad iddo trwy gynghor Joazarus yr archoffeiriad. Ond darfu i Judas Gaulonitis, ynghyd ag un Sadducus, pharisead, eu hannog hwynt i wrthryfela, gan haeru nad oedd yr ardrethiad yn dwyn arnynt ddim llai na *chaethiwed hollol,* a chan alw ar y genedl i sefyll dros eu rhyddid."

Yma y gwelwch i'r ardrethiad gael ei wneuthur mor gynted ag yr ordeiniwyd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria; a'r pryd hynny, nid yn unig yr oedd *Herod* wedi marw, ond yr oedd ei ganlynwr Archelaus, ymhen deng mlynedd ar ol hynny, wedi cael ei alltudio, oblegid yr oedd Cyrenius "i ddosparthu meddiannau Archelaus." Sylwch hefyd, y fath brawf tebygol cryf *(strong presumptive proof)* sydd yma, mai dyma yr ardreth gyntaf o'r fath. "O herwydd yr oeddent yn arswydo hyd yn oed wrth yr *enw* ardreth;" ac yn haeru eu bod yn eu dwyn i *gaethiwed.* Diau ynte nad oeddent erioed o'r blaen wedi cael eu hardrethu felly.

29. Yr ydym yn ychwanegu fel prawf i ryw raddau, nid yn unig mai hon oedd yr ardreth *gyntaf,* ond mai yr unig un o'r fath ydoedd hi, ei bod yn cael ei galw gyda phwys, "dyddiau y trethiad." Felly yn Actau yr Apostolion, y mae Gamaliel yn dywedyd wrth y llywodraethwyr pan yn ymgynulledig yn y cynghor i ymgynghori beth a wnelent i Petr a'r Apostolion ereill," "Ar ol hwn y cyfododd Judas y Galilead, yn nyddiau y *dreth.*—v. 37.

Y fath yw yr anhawsderau sydd ynglyn a'r pump adnod gyntaf o'r bennod hon. Ymddengys eu bod wedi cael eu ysgrifennu gyda'r fath esgeulusdod—fod y fath anhebygolrwydd ynglyn a hwynt—a'u bod yn llawn o'r fath anghywirdeb—ag a'i gwna yn anghredadwy iddynt gael eu ysgrifennu gan yr efengylwr Luc. Darfu i ni aros yn hwy ar yr adnodau hyn, o herwydd eu pwys, ond ni a gawn fyned heibio yn awr a gweddill y bennod, gyda mwy o frys.

30. Adn. 6. Mae yn beth rhyfedd nad oes dim un son am Elisabeth yn y lle hwn. Dim ond chwech mis oedd oddiar pan y gadawodd Mair hi, wedi teithio yn gyntaf daith tri diwrnod er mwyn cael ei gweled hi, ac aros gyda hi bryd hynny dri mis; ac etto pan ddaeth hi i Bethlehem yr amser hwn, oddeutu pedair milldir o Jerusalem, ni ddywedir iddi gymmaint a galw arni, er iddi ei gadael hi mewn cyflwr cynnil, ac yn disgwyl genedigaeth uniongyrchol ei phlentyn hynod ei hunan. A gellid meddwl y buasai tŷ ei chares yn fwy cymmwys iddi yn yr amgylchiad hyn na'r preseb.

31. Ac nid yw yn ymddangos oddiwrth yr hanes, i Elisabeth gymmaint a galw i weled Mair, er ei bod yn gwybod am ei hamgylchiad, ac yn disgwyl iddi fod yn fam ar y Messiah. Gallesid disgwyl na fuasai i'r hanesydd a ddesgrifiai mor fanwl eu cyfarfod blaenorol, ddim ei anghofio yr amser hwn.

32. Dywedir iddi "esgor ar ei mab cyntaf-anedig, ei rwymo mewn cadachau, a'i *ddodi yn y preseb.*" Amgylchiad rhyfeddol iawn, os oedd ganddi berthynas o fewn i bedair milldir, gyda'r hon y bu hi yn aros ynghylch tri mis ychydig cyn hynny. Fel pe buasai amser Mair i esgor yn llwyr annisgwyliadwy iddi hi ac Elisabeth. Yn lle myned i dŷ ei chares, gosododd ei phlentyn yn y "preseb." Y mae y gair a gyfieithir, preseb, yma yn cael ei egluro gan esbonwyr dysgedig, "fel un o'r celloedd tanddaearol hynny, lle yr oedd bugeiliaid yn gyrru eu diadelloedd, neu ladron yn casglu ac yn dwyn eu ysglyfaeth ynghyd."—*Jones's Developement, vol.* 1, *p.* 393.

33. Y rheswm a roddir am hyn, yw, "am nad oedd iddynt le yn y lletŷ." Ond pam yr oedd *Bethlehem* mor llawn ar yr amser hwn? Os oedd y trethiad yn beth mor gyffredinol ag y darlunir ef yma, a phob un yn myned i'w ddinas ei hun, nid oes un rheswm dros feddwl fod Bethlehem yn fwy llawn na lleoedd ereill.

34. Adn. 33. Yr oedd *Elisabeth* wedi dywedyd wrth Mair, "Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth di." Yr oedd *Gabriel* hefyd wedi dywedyd wrthi am ei mab, "Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf." Yr oedd Mair yn gwybod yn eithaf da am yr amgylchiadau gwyrthiol oeddent yn cydfyned ag *ymddangosiad* Gabriel, a chenhedliad a genedigaeth y plentyn—yr oedd hi wedi addef wrth Elisabeth y buasai i'r holl genhedlaeth o hynny allan ei galw hi yn wynfydedig—yr oedd y bugeiliaid wedi bod yn ymweled a Mair, ac wrth gwrs, wedi dywedyd wrthi am yr angylion oeddent wedi weled; a darfu i Mair gadw y pethau hyn gan eu hystyried yn ei chalon"—ac etto pan y darfu i Simeon eu cyfarch a'u bendithio hwy, yr ydym yn cael i "Joseph a'i fam ef RYFEDDU am y pethau a ddywedwyd am dano ef!!" Y mae yn beth hynod iawn yn wir, eu bod yn rhyfeddu o herwydd yr amgylchiad hwn, yr hyn oedd yn llawer llai rhyfedd nag un, braidd, o'r digwyddiadau a gymmerasant le o'r blaen.

35. Adn. 41. Nid yw yr ysgrifenydd yn ymddangos ei fod ar ei wyliad-

wriaeth yma, ar ol yr hanes a roddodd o ddechreuad ein Hiachawdwr. Yr oedd o'r blaen, yn y 33 adnod, wedi dywedyd, *Joseph* a'i fam " (ond y mae Griesbach ac ereill yn meddwl mae llygriad yw'r geiriau, " *Joseph* a'i fam," ac y dylent gael eu darllen, ei *dad* a'i fam). Ond yma y mae yn llefaru yn eglur, ac yn galw Joseph a Mair ei " *rieni* ef," " A'i *rieni* ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar wyl y pasg."

36. Adn. 41, 42. Y mae gwall arall yma hefyd. Nid oedd yn *arferiad* gan yr Iuddewon, i'r holl deulu, neu i'r tad a'r fam i fyned i Jerusalem, ond y gwrrywaid yn unig. Felly, nid yw yn beth credadwy braidd, fod Joseph a Mair yn myned i fynu i Jerusalem *bob blwyddyn*, o Nazareth, pan nad oedd y gyfraith yn gofyn ond presenoldeb Joseph yn unig.

37. Adn. 48. Nid oedd syndod rhieni yr Iesu wedi cilio pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed; ac, yn wir, ar yr achlysur hwn ymddengys fod eu syndod wedi ei gyffroi heb un achos gwirioneddol. Yr oedd yr ieuengetid Iuddewig yn darfod cael eu galw yn blant, ystyrid hwy yn addas i ddderbyn addysg grefyddol, caniatteid iddynt i fyned i'r gwyliau sanctaidd, a gwnaethid hwynt i dderbyn iau'r gyfraith. Nis gallasai gwaith ei rieni yn ei gael yn y deml fod yn un achos o ryfeddod iddynt hwy, er y gallasai ei gwestiynau fod felly i'r doctoriaid.

38. Y mae y geiriau a ddywedodd Mair wrth yr Iesu ar yr achlysur hwn yn hynod iawn, " Wele dy *dad* a minnau yn ofidus a'th geisiasom di." A ydyw yr ysgrifennydd ddim wedi crogi ei hun yma etto? A ydyw yn gredadwy—a ydyw yn bossibl—y buasai i Mair ddywedyd fel hyn os nad Joseph oedd tad Iesu mewn gwirionedd? Y mae y rhai ydynt yn haeru hyn am Mair yn ei chyhuddo o dwyll gwirfoddol, a hocced bwriadol. Ymhell y bo'r fath ymddygiad oddiwrth fam ein Harglwydd wrth hyfforddi a dwyn i fynu ein Harglwydd bendigedig.

39. Adn. 49, 50. Y mae'r syndod yn cael ei ddirwyn i fynu i'r man uchaf yn sylw yr ysgrifennydd ar atteb ein Hiachawdwr, " Paham y ceisiech fi? oni wyddech fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad. *A hwy ni ddeallasant y gair a ddywedasai efe wrthynt.*" Ar ol hyn oll a gymmerodd le rhwng Elisabeth a Mair—rhwng yr angel Gabriel a Mair—rhwng y bugeiliaid a Joseph a Mair—oll yn ddigwyddiadau gwyrthiol—oll yn nodi yr Iesu allan fel y Messiah addawedig—oll yn cael eu cadarnhau gan addefiadau ac ymddygiad Mair ei hun; etto, ni *ddeallasant hwy* y gair a ddywedasai yr Iesu fod yn rhaid iddo fod ynghylch y pethau a berthynai i'w Dad!!

IV. Ein gwaith yn y pedwerydd lle yw cydmaru y ddwy bennod gyntaf a dybir iddynt gael eu ysgrifennu gan Matthew, a'r ddwy bennod gyntaf yn Efengyl Luc, fel eu derbynnir yn gyffredin.

Ni chawn wneuthur ond sylwadau byrrion ar hyn.

1. Y mae yr hanesion mor hollol wahanol fel nad oes un digwyddiad wedi cael ei adrodd gan y ddau.

Nid oes, mor belled ag wyf yn cofio, un amgylchiad ag y maent yn ddywedyd am dano eich dau, ond y lle y ganed yr Iesu. Nid oes un son am freuddwydion Joseph gan Luc—am y *seren* a welwyd yn y Dwyrain—am daith Joseph a Mair i'r Aifft—dim am lofruddiad y plant yng nghymmydogaeth Bethlehem—dim difyniad o brophwydoliaethau i gyflawni y rhai y cymmerodd y digwyddiadau hyn le. Y mae y pethau yma ynghyd a'r achyddiaeth yn gwneuthur i fynu ymron y cyfan o'r ddwy bennod gyntaf o Efengyl dderbyniedig Matthew.

Yn Matthew nid oes gennym ddim am Zacharias ac Elisabeth, a chenhedliad a genedigaeth Ioan—dim am ymddangosiad yr Angel Gabriel i Mair—dim am ei siwrnai i Judea i weled ei chares—dim am y trethiad fel achos eu siwrnai i Bethlehem—dim am weledigaeth angylion gan y bugeiliaid—dim am gyflwyniad Iesu yn Jerusalem—dim am yr ymweliad a Simeon ac Anna ynghyd a'u phrophwydoliaethau—dim am daith yr Iesu i Jerusalem yn ddeuddeg mlwydd oed. Crybwyllir yr holl bethau yma yn Efengyl dderbyniedig Luc; ac y maent yn gwneud i fynu ymron y cyfan o'r ddwy bennod gyntaf. A gellid meddwl nas gallasent gael eu gadael heibio i gyd gan Matthew, pe buasent oll yn wir. O.E.

(I'w barhau).

STEPHENS O FERTHYR AR Y NOD CYFRIN A MYVYRYDDIAETH.

Hysbysir i mi gan gyfeillion Ieuan Myvyr, ac mewn llythyr cyfrinachol oddiwrtho ef ei hun, nad yw ar fedr ysgrifenu rhagor ar y Nod Cyfrin, nes y caiff weled beth a ddywedaf mewn attebiad; a rhag i'r ddadl ddianc yn y ffordd yna, cymmeraf afael yn fy ysgrifell. Ond buasai yn lanach i Myvyr gwblhau ei waith yn drefnus na'i adael ar hanner fel yma; ac os yw wedi dirwyn ei bellen dylasai ddweyd y gair "gorphenais."

Yn y llythyrau cyhoeddus, yn gystal ag yn y llythyr cyfrinachol, cyhudda fi o fod yn fradwr ein gwlad a'n cenedl, o herwydd fy ngwrthwynebiad i'w olygiadau ef ar y Nod Cyfrin, yr hwn ni fu erioed yn goron i Genedl y Cymry, nac yn anrhydedd i unrhyw gwr o wlad fy mam, ond bro Morganwg. Dywed hefyd y gwnelwn yn gall beidio ysgrifenu rhagor ar y testun; os felly, paham y mae efe yn aros am fy atteb? Ac ymhellach dywed—"A pho gwypech beth sydd ar eich cyfer etto yn ol, tybiwyf y byddai lawen genych ymattal. Yr wyf yn awr ynghylch ysgrifenu llyfr ar y *Dirgelwch Gogoneddus*. Ni charwn, mewn gwirionedd, frawd, i'r fath gymeriad gloyw a chlodforus, ag yw yr eiddo chwi fel hanesydd Cymreig, gael ei drosglwyddo dan wawd i'r oesoedd dyfodol."

Na fydded hynny yn un baich ar feddwl y bardd; dyweded y gwir am danaf, heb gelu un o'm pechodau yn erbyn y nod; ac nac arbeded un o'm beiau llenyddol. Ond gan ei fod wedi camddeall anian ei wrthwynebydd, efallai y byddai i mi fyrhau ei lafur trwy ddweyd, nad wyf yn rhoddi un hyder i gyhuddiadau o'r fath. Pa un a ydwyf yn fradwr i'm gwlad sydd gwestiwn a adawaf i benderfyniadau fy nghyd genedl, ac "i'r oesoedd dyfodol," os bydd y rhai hynny mor fwyned a chofio fy mod wedi byw a bod yn yr oes bresennol. Ond mewn gwirionedd y mae gwlad fy mam yn eithaf diogel; "na chryned Dyfed na Glewysig;" nac ofned Bannau Brycheiniog; a chreigiau Eryri byddent ddisigl; nid oes yma ond tymhestl fechan ar lan Taf; ac nid oes dim mewn perygl ond Myvyryddiaeth a hunan-barch y Bardd Cyfrin

Pe amgen, nid yw ddichonadwy i fygythion Myvyr fy nhroi yn ol. Fy unig ddyben yw cael allan y gwirionedd; ac yn yr ymchwil hwnnw, pe bai y Bardd Cyfrin a'i ddisgyblion yn cyhoeddi esgymmyndod, holl *gwn Annwn* yn crochlefain y ddedryd, ac aml fynyddau Cymru yn canu bass i'r gydgerdd felldithiol, rhodiaswm fy llwybr yn llon ac yn benderfynol; a pho bai

yr Alps a'r Pyrenees yn gwaeddi "Amen," a'r Himalaya draw a Chotopaxi yn adseinio llef eu brodyr gorllewinol, canaswn yn ngeiriau Aneurin—

> "Noc ac escyc carreg vawr y Cyhydvan,
> Nid mwy gysgogit wit mab Peithan."

Am hynny cyfynged Myvyr ei fygythion i'r rhai a'u hofnant; a'r tro nesaf y llefaro "y Gwir yn erbyn y Byd," nac anghofied gyssoni y geiriau yna a'i weithred yn ymdrechu fy rhwystro rhag dinoethi hanes y Nod Cyfrin. Os gwir yw athrawiaeth Myvyr, paham yr ofna? Ond gan na oddef sylw, wele ymdrechion i gyffroi gwarth gwlad a chenedl, wele fygythion o drwst taranau a daeargryn, ac o gospedigaeth diderfyn yn Gehenna Cadair Morganwg! Onid yw y Bardd yn mwyhau ei swydd? "Medraf alw ysprydion o'r eigion draw," medd Owain Glyndwr, ond a ddeuant ar dy gais? "Medraf brophwydo tynged Stephens," medd Ieuan Myvyr; ond, hynaws gyfaill, a ddaw y brophwydoliaeth i ben?

Un peth ychwaneg ac yna awn yn y blaen. Y mae yn amlwg fy mod wedi clwyfo teimladau Myvyr, er nad oeddwn yn amcanu gwneyd hynny, ac ei fod yntau wedi defnyddio gwawdiaeth mewn attebiad; ond er hynny na chreded neb fod un gelyniaeth bersonol rhyngom. Yr wyf yn credu fod gan Myvyr lawn cymmaint o barch i mi ac y gellid disgwyl tuag at greadur mor dywyll ac anwaraidd; ac o'm rhan i bydded Myvyr fyw fil o flynyddoedd, parhaed ei gysgod yn ei lawn hyd; ac os digwydd trwy ryw anffawd i *Logos yr ail* ymadael a'r fuchedd hon, boed iddo gael ei gynnwys ynghylch y Gwynfyd, gyda Menw ab Teirgwaedd ac Einigan Gawr.

Gwaith ofer fyddai dilyn Myvyr trwy ei adroddiadau dwyreiniol, a'i wahanol grybwylliadau am dduwiau a llenyddiaeth yr Aiphtiaid a'r Hindooaid, gan nad ydynt yn cadarnhau hynafiaeth y Nod Cyfrin, nac yn perthyn mewn unrhyw fodd i'r pwnc mewn dadleuaeth. Gan hynny bydd yn afreidiol i mi fanylu ar naw rhan o ddeg o lythyrau Myvyr; ac ni wnaf ond sylwi ar un neu ddau o'r ffeithiau dwyreiniol, er mwyn profi fod Myvyr yn cyfeiliorni, ac naill ai yn camddeall hanes yr Hindooaid, neu yn camarwain ei ddarllenydd. Ond gan y bydd o bwys i'r Cymro anhyddysg ffurfio rhyw ddrychfeddwl am deilyngdod y gweddill, gosodaf ef mewn cyflwr i ffurfio ei farn ei hun, mor belled ag y mae hynny yn anghenrheidiol.

Ysgrifenwyd y gweithiau a goffheir gan Myvyr, cyn dyddiau Colebrooke, Wilkins, Ward, Eastwick, a Wilson, ein prif ddysgedigion dwyreiniol, pan oedd llenyddiaeth Hindostan yn llai adnabyddus nac y mae yn awr, pan oedd haeriadau celwyddog y Brahminiaid yn cael eu credu fel gwirioneddau safadwy, a phan oedd llawer iawn o ddysgedigion Lloegr dan ddylanwad yr hud sydd wedi maglu synwyrau ein cydwladwr.

Y mae dydd ei athrawiaeth wedi myned heibio, ac fe ddichon y gwel yn y diwedd mai gwaith ofer yw ymdrechu adfywhau peth mor ddisail a difywyd; a chan fod gwaith Volney eisioes wedi methu dymchwelyd twyll offeiriadaeth, ar ol hanner can mlynedd o ymgais, nid oes gennyf nemawr o obaith y bydd "athrawiaeth y Logos" yn fwy effeithiol. Mewn gair, y mae ei awdurdodau yn dra hen ac yn anghywir; y mae ei ddysg, fel y dywed y gwragedd, wedi llwydo; ac y mae yn bur debyg nad yw ysgwyddau Ieuan Myvyr wedi derbyn mantell Syr William Jones.

Y mae'r ffaith yn brofadwy fod y Cymry wedi deillio o'r dwyrain—fod y

Iaith Gymraeg yn perthyn yn agos i'r Sanscrit, sef iaith sanctaidd y Brahminiaid; a bod *cromlechau a charneddau* mor gyffredin yn Hindostan ac y maent drwy gyfandir Ewrop, ac yn Ynys Prydain; ond nid yw hyn yn un cadarnhad o hynafiaeth y Nod Cyfrin *yn Nghymru*. Gwel Myvyr y Nod Cyfrin ym mhob rhych a ddaw dan ei sylw, yn Nghyhyrau y Pwyrain, ac yng ngherfiadau Nineveh; ond nid ydwyf yn alluog i'w gweled yn yr un golau. Etto, pe bai Nod Cyfrin ar bob carreg yn India, ac ar dalcen pob un o'r duwiau Hindostanaidd, pa rai ydynt yn 330,000,000 o rif,* ni fuasai hyny yn cadarnhau ei hynafiaeth *yn Nghymru*; ac y mae Myvyr yn camddeall y pwnc mewn dadleuaeth, pan y rhodda gymmaint o bwys ar ei deithiau dwyreiniol. Y pwnc yw, beth yw oed y Nod Cyfrin yn Ynys Prydain? Dywed Myvyr, os deallaf ef yn iawn, fod y Nod mor hened a dyfodiad y Cymry i'r Ynys hon; ond nid yw ei air ef yn brawf. Fel y dywedais eisoes —y nod cyntaf a argraffwyd yn Nghymru, oedd yr un a gyhoeddwyd gan Iolo Morganwg yn 1812; ond gan fod gweithiau Maurice ac ereill wedi eu cyhoeddi y pryd hyny, a hynafiaethau India yn dyfod yn adnabyddus, gallasai Iolo fenthyca'r nod oddiyno. Nid wyf yn gwybod iddo wneyd hyny; ond y mae yn beth rhyfedd i mi, na fuasid yn gwybod am y nod yn rhyw le heblaw bro Morganwg, a chyn y flwyddyn 1812.

Y mae yn wir fod y Iolo MSS. yn dangos Nod ymhlith ysgrifau Llewelyn Sion; ond carwn weled yr ysgrif wreiddiol. Bum yn ddiweddar yn chwilio rhai o ysgrifau Llewelyn Sion yn meddiant teulu ab Iolo; ac mor belled ag y cefais i gyfle i'w chwilio ni welais yr un Nod Cyfrin. Y mae gan hyny yn gorphwys ar ysgwyddau Myvyr, i ddangos *ar dir Cymraeg*, fod y Nod yn adnabyddus cyn amser Iolo Morganwg.

Y mae Myvyr yn gwneyd rhai haeriadau ar ei awdurdod ei hun, ac yn traethu barn Iolo Morganwg. Cynnygaf ychydig o sylwadau ar deilyngdod awdurdodol pob un o'r ddau.

IOLO MORGANWG. Y mae genyf y parch mwyaf i hen Fardd Morganwg, am ei ddoniau barddonol, am ei ddiwydrwydd fel hynafiaethydd, yn casglu llyfrau, ac am ei wladgarwch yn pleidio gwerthfawrogrwydd iaith, hanes, a llenyddiaeth y Cymry; ond yr oedd yn ddiffygiol mewn galluoedd beirniadol, yn neillduol gyda golwg ar hanesyddiaeth; ac er yn angenach na llawer o'm cydwladwyr, yr oedd ei farn dan ddylanwad ei ddarfelydd. Rhoddaf engraifft o'r hyn a feddyliaf. Yn y Iolo MSS. tudal 263, y mae can brophwydoliaethol, yn dechreu fel y canlyn:—

"Coronog Faban, medd Aneurin,
Wrth seiniau Cylfeirdd Cor Llanfeithin,
Canol ei oes ef nertha'i werin,
Ac yn y diwedd y bydd Frenin."

Yn nhudalen 270, ymdrecha ddangos mai Aneurin oedd gwir awdwr y gan; dywed fod iaith a mydr y gan yn cyttuno yn dda ddigon ac iaith amser Aneurin; ac yn ol arfer Cadair Morganwg, dywed—"A fo cyfarwydd a'r hen Farddoniaeth Gymraeg, barned hyd eithaf ei wybodaeth a'i ddeall; *[illegible]*." Yn awr mewn gwirionedd, nid oes un tebyg-

* Ward, i tudal 2. Prawf nodedig o haeriad Myvyr fod y Nod Cyfrin y dalien eilunaddoliaeth, onite?

olrwydd rhyngddynt, fel y gwelir wrth gydmaru y bennill yma a'r un a ganlyn :—

" Kneawc Kynhorawc bleid e maran,
Gwevrawr godrwawr torchawr am rann,
Bu gwevrawr gwerthvawr gwerth gwin vann,
Ef gwrthodes gwrys gwyar disgrein,
Ket dyffei wyned a gogled e rann,
O gussyl mab ysgyrran,
Ysgwydawr angkyuan.

Nid rhyfedd gan hynny fod Mr. Rees *y Gododin*, o Gascob, yn taflu awdurdod Iolo dros y bwrdd.—*Iolo MSS.* 673.

A chan nad oedd yn alluog i ddirnad y gwahaniaeth rhwng gwaith Aneurin a ieithwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, nid yw yn teilyngu un hyder fel beirniad hanesyddol. Etto, Iolo fel hanesydd. Yn yr un llyfr, tudal. 264, dywed—" Gwnaeth Hywel ei gyfraith yn 927. Gallasai'r Bardd Glas fyw i ganu clod a chof Hywel Dda." Na allasai. Wrth y Bardd Glas, y mae Beirdd Morganwg yn deall *Asserius Menevensis*, Archesgob Tŷ Ddewi. Bu hwnnw farw yn O.C. 906; am hynny pa fodd y gallasai ganu clod cyfraith Hywel un ar ugain o flynyddau cyn i'r gyfraith gael ei ffurfio.

Yn awr deuwn i ystyried awdurdod Iolo mewn cyssylltiad a'r Nod Cyfrin. Dywed Myvyr, ar ba awdurdod nis gwn, fod Iolo yn cyfrif y pennill canlynol yn un o'r henaf yn y Iaith Gymraeg, sef—

" Pan fo cwyn cynllwyn Bro Gwrtheuin,
Ac ysgar gwiail (coelwydd) y Gilblant werin,
Gwyn fyd y geneu'n gyfrwydd Gyfrin,
A lafair tri gair (/\\ ) o'r heniaith gyssefin."

Os dywedodd Iolo hynny, pa fodd yr oedd yn awdurdod beirniadol, gan nad yw y ffurf hynaf o'r bennill yna yn henach na'r bymthegfed ganrif; ond mewn gwirionedd ni welodd Iolo erioed o'r bennil yn y ffurf yna. Y *mae ól bwyall Myfyr* arno yn awr, a'r oedran yw mis Chwefror, 1853, pan ysgrifenodd y llythyr a gyhoeddwyd yn *Seren* Mawrth. Priodolir y geiriau i dri o bersonau, sef Peredur Bardd Prydain (pwy oedd hwnnw Myvyr?) Merddin Emrys, o Gwenddydd chwaer Myrddin Wyllt. Rhoddir ef mewn dwy ffurf yn y Iolo MSS. 80 a 81, ac yn unffurf yn y rhagymadrodd i eiriadur y Dr. Thomas Williams (*Y Greal* tudal 65) yr hwn a ysgrifenwyd oddeutu O.C. 1620, ac yn y *Myvyrian Archaiology*, i. 149. Y mae'r ddau olaf yn lawer henach na'r lleill; ac y mae cymmaint a hyn o hynodrwydd yn perthyn i'r ffurf hynaf. Nid yw yn rhoddi un cefnogrwydd i olygiadau Myvyr; ond y mae yn profi fod Beirdd "y Gwir yn erbyn y Byd," yn gwybod y ffordd i dwyllo. Gan Dr. Williams ac yn y Myv. y mae y llinellau olaf fel y canlyn :—

" Gwyn ei fyd y geneu *yn frwydd gyfeistrin*,
A lefaro tri geir o'r heniaith gyssefin."

Cyfansoddwyd y bennill yn adfyd y Cymry yn y 15fed ganrif, ac ystyr y geiriau yw,—" Gwyn fyd y geneu, yn rhwygiad cydfrwydr, a lefaro dri gair o'r hen iaith Gymraeg." Ond yn awr, y mae y Beirdd Cyfrin wedi troi " frwydd gyfeistrin" yn " *gyfrwydd gyfrin*," a Myvyr wedi gwella rhagor ar y geiriau trwy eu troi yn " *gyfar*wydd gyfrin."

Cymmaint a hyna am onestrwydd y Beirdd, ac am deilyngdod Iolo fel

hanesydd. Ond gan y dichon fod rhai o'm darllenwyr yn anwybyddus o'r ffaith fod cannoedd o brophwydoliaethau dan enwau Merddin, Taliesin, Aneurin, ac ereill, wedi eu cyfansoddi yn amgylchiadau terfysglyd y 15fed ganrif, bydd o bwys i mi sylwi nad yw yn brawf yn y byd mai Gwenddydd oedd awdures y bennill dan sylw, o herwydd fod ei henw hi wrthi. Yr oedd Myrddin yn byw oddeutu O.C. 577; ond y mae hen ffregod dan yr enw— "Yr Ail Gan o Ddarogan Myrddin," yn terfynu fel y canlyn:—

"Un mil a chwe' chant cyfan, a thrugain mlwydd ac wyth,
Oedd oedran Crist ein Prynwr, pan gwnaethpwyd hyn o fwyth;
I gael rhybuddio'r Cymry, a chyffro pawb o'r byd,
I alw ar Dduw'n garedig, i atal hyn o lid."

Hynny yw yr oedd prophwydoliaeth dan enw Myrddin wedi ei chyfansoddi mor ddiweddar ac O.C. 1668, a miloedd o Gymry yn ei chredu; ac oni buasai fod y *date* yn ysgrifenedig, buasai rhyw Fardd Cyfrin yn taeru ei bod yn iaith a mydr y 6fed ganrif, ac yn gwahardd pawb ereill i ffurfio barn drostynt eu hunain.

Yn awr y mae yn bryd i ni bwyso *Ieuan Myvyr* yn yr un glorian. Dywed un o'r hen feirdd—

"Unfodd a llong ar gefnfor,
Heb hwyl, heb raff, heb angor,
Ydyw ieuanc digyngor."

Ac unfodd a hynny yw Ieuan Myvyr. Y mae wedi casglu ychydig o ffeithiau lleol ac ysgrifau diweddar, ac oddiar hynny yn credu ei fod yn feistr ar holl hynafiaethau y genedl; ond y gwir yw, er ei holl ymffrost nid yw yn nemawr o hynafieithydd. Nid yw yn adnabod y gwahaniaeth rhwng hen a diweddar; ac nid oes ynddo un mymryn o graffder beirniadol. Y mae yn hollol amddifad o resymeg, ac wedi rhoddi y ffrwyn ar war ebol gwyllt ei ddarfelydd; a phrif elfenau Myvyryddiaeth, neu athrawiaeth y Dirgelwch Gogoneddus, yw camsyniadau dychymyg, a haeriadau disail.

Yr wyf yn foddlon ddigon i'r Bardd gredu ei fod yn *Logos* yr ail, ac nid llawer a brisiaf am ei ddiffygion fel *pundit* Hindooaidd; ond ar ei dir ei hun disgwyliaf ei fod yn meddu gwybodaeth gyffredinol; ac y mae gennym hawl i ddisgwyl fod y Bardd Cyfrin yn gwybod rhyw beth am hynafiaethau Cymru. Etto, pe buasai yn meddu y ganfed rhan o'r hyn a broffesa, ni fuasai yn gwneud y fath gamsyniadau a welir yn ei ysgrifau. Dywed mai yr un oedd Gwydion ab Don, a *Thoth* (*Mercher*, *Einigan*), ac mai efe oedd y Gwyddon cyntaf, a dyfeisydd llythyrenau; ond nid oedd Gwydion, nac Abraham, nac Isaac, na Jacob; ac nid oedd nac Einigan, na *Thoth*, na *Mercher*, ond brenin Gwyddelod Mon yn nechreuad y chwechfed ganrif, O.C. Yn y gerdd i Veib Llyr ab Brychwel Powys, o waith *y gau Daliesin*, ac nid y gwir fardd o'r enw fel y tybia Myvyr, dywedir yn llafariaith Morganwg i Gwydion rithiaw "gwydd, elfydd, ac Elestron," ac y mae Myvyr yn credu fod yma gyfeiriad at Goelbren y Beirdd; ond pe buasai gyfarwydd a *Mabinogi Math ab Mathonwy*, gwelasai fod y bardd yn cyfeirio at foneddiges Blodeuwedd, priod Llew Llaw Gyffes, sef, "gwraig o flodeu" a rithwyd gan Math a Gwydion. Buasai yn gwybod hefyd mai deuddeg o *feirch* oedd y *gorwyddawd* a rithwys Gwydion ar blagawd Llys Pryderi, Arglwydd Dyfed, ac nid yr Egwyddor wydd. Edryched mewn geiriadur, ac y gwel ei fod yn

cysgu hun ddydd. Y mae yn wir fod Ab Iolo wedi gwneyd yr un camsyniad; ond gan fod mwy na Solomon ym Mhontypridd, ofer fyddai son am hwnnw. Gallaswn enwi llawer ereill, ond bydd y rhai hyn yn ddigon i brofi mai nid yn y *Ruins of Empires* na'r *Indian Antiquities*, y mae iddo ddyfod yn adnabyddus a hynafiaethau y Cymry.

Y mae yn eanlyn oddiwrth y sylwadau rhagflaenol nad yw Myvyr ychwaith yn un awdurdod hanesyddol; a chan na roddir un pwys i'w air ef mewn dadleuaeth, mwy nac i'm gair innau, gofaled o hyn allan i roddi awdurdod am ei haeriadau, ac nac anghofied rhoddi rhif y gyfrol a'r tudalen, fel y gellir gweled fod ei adroddiadau yn gywir. Yr wyf gan hynny yn gwrthod awdurdod personol pob un o'r ddau.

Un sylw ychwaneg. Y mae yn arfer gan Myvyr, fel yr oedd gan Iolo (*Waring*, 33; a *Iolo MSS.* 270), i wahardd pawb ond Beirdd Cyfrin rhag rhoddi barn ar ddefodau Beirdd Ynys Prydain; hyny yw, nid yw yn rhydd i neb draethu ei farn ei hun, nes y bydd yn rhwym i beidio. Gyda phob un o honynt, fel gyda Joe Smith, y mae yn ofynol credu o flaen llaw. Yr oedd *Logos* y cyntaf yn hyn o beth yn llawer amgenach na'r ail. Os na chredweh fi, credweh fy ngweithredoedd, oedd iaith y cyntaf: ond credweh fi, yw iaith Myvyr a'r prophwyd Smith, ac yna bydd gweithredoedd yn afreidiol. Dyna fan gwan Myvyryddiaeth; ac onis dengys y cyfaill Ieuan fod rhyw beth mewn dehongliad nad yw yn flaenorol ym meddwl y dehonglydd, fod rhyw beth i'w wybod trwy gyfrwng y cyfrinion nad yw yn wybyddus hebddynt, parhaf i fel un yn fy anghrediniaeth. Nid oedd cyfrinion gan *Logos* y cyntaf; pa angen am gyfrinion sydd ar *Logos* yr ail? Y mae yn rhydd i lefaru ei athrawiaeth, heb achos ofni un gosb na cherydd: am hynny, pa eisiau sydd am ei gelu? Y mae cyfrinion a gwirionedd mor anghyson a'u gilydd, ag yw tywyllweh a goleuni; ac y mae tuhwnt i'm deall hi pa fodd y cysonir y Dirgelweh Gogoneddus a Gwyneb Haul a Llygad Goleuni.

Etto, os oedd yn anghyfreithlon iddo eglurhau y dirgelweh yn y *Seren*, pa fodd y cyssonir hyn a'r dywediad—ei fod yn awr yn ysgrifenu llyfr ar y pwnc? Hefyd, ar ba sail y mae Myvyr yn prophwydo, os yw cyflawniad y brophwydoliaeth yn ymddibynu ar fy ewyllys i? Wele dwyll ar dwyll, a dyrysweh diderfyn! Y mae y pysgodyn *cuttle-fish* yn chwydu trwyth du megys *ink*, i ddallu ei elynion; ac y mae yn bur debyg nad yw Cyfrinion Myvyr ond cymmaint a hyny o lweh yn cael ei daflu yn llygaid ymofynwyr. "Nid ydynt hwy," medd Siffre o Fynwy, "yn meddu y llyfr sydd gennyf fi;" ac yr oedd y dywediad yn glo ar grug o anwiredd. "Nid oes neb ond beirdd yn deall y pethau hyn," meddai Iolo Morganwg; ac y mae yn bur debyg mai diffyg atteb gwell a gynhyrfodd a dywediad. Felly, dywed Myvyr nad wyf yn deall y cyfrinion; ac yr wyf innau yn atteb—nad oes dim i'w ddeall ynddynt; ac nad yw yntau yn cael un ystyr o honynt, ond yr hyn sydd yn ei feddwl ef flaen llaw. Mewn gwirionedd—

Ni rown i welltyn crin
Am fil o Nodau Cyfrin.

Cymmaint a hyna yn amgylchiadol. Cwblhaf fy attebiad mewn llythyr arall, testun yr hwn fydd Menw ap Teirgwaedd.

T. Stephens.

AR Y GEIRIADAU A FABWYSIADIR YN Y TESTAMENT NEWYDD, AG YDYNT YN DWYN PERTHYNAS I EBYRTH.—Rhan II.

(*Parhad o tudal.* 239.)

Nid oes achos yn awr i ni fod yn anwybodus o feddwl yr ymadroddion canlynol: "Gwaed Iesu Grist sydd yn ein *glanhau* ni oddiwrth bob pechod;" 1 Ioan, i. 7; "Wedi *puro* ein pechodau ni trwyddo ef ei hun; Heb. i. 3; "Os ydyw gwaed teirw a geifr yn sancteiddio i *bureiddiad y cnawd*, pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr ysbryd tragywyddol" yn ol appwyntiad tragywyddol ddoethineb, "a'i hoffrymmodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich *cydwybod* chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?" Heb. ix. 13, 14; y mae'r iaith yn myned ar y meddwl o fod Crist yn offeiriad neu yn aberth deddfol, neu bob un o'r ddau; iddo daflu gorchudd, neu wneud cymmod dros, neu buro anfoesoldeb aeth heibio y troedigion cyntaf, fel ag yr oedd yr arch-offeiriad yn gwneuthur cymmod dros halogrwydd seremoniol yr Israeliaid, ac yn gwneuthur dynion yn alluog, fel ei hun, i gymnorthwyo yng *ngwasanaeth* Duw. Gadewch i ni sylwi fod Ioan yn darlunio'r Holl-alluog ei hun megis "yn gyflawn," yn *drugarog*, "fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder;" 1 Ioan i, 9; ac ni all neb fod mor bwl a dychymmyg i Grist, oddieithr mewn ystyr gyffelybiaethol, gyflawni swydd offeiriad, iddo ladd ei hun neu ddwyn ei waed, pan esgynodd i'r nefoedd, a'i daenellu arno ei hun, y drugareddfa, yn lle presennoldeb neillduol Duw.*

Seremoni arall a gyflawnid gan yr archoffeiriad ar ddydd y cymmod, oedd gosod dau fwch ger bron yr Arglwydd, a rhoddi coelbrenau drostynt, un dros yr Arglwydd (y pech-aberth dros y bobl, am yr hwn yr ydym yn barod wedi sylwi) y coelbren arall dros y bwch diangol; Lef. xv. 20; y bwch diweddaf *oedd yn cael ei osod yn fyw ger bron yr Arglwydd*, i wneud cymmod âg ef; ac yna yn cael ei anfon ymaith, yn nghyd â holl anwireddau meibion Israel, a'u holl droseddiadau yn eu holl bechodau, wedi eu gosod ar ei ben, i'r anialwch; i'w dwyn hwynt ymaith arno i dir annhrigianol. Yr oedd y creadur hwn i wneud cymmod heb gael ei ladd. Yr ydym yn

* Heb. viii. 4.—"Canys pe bai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith, gan fod offeiriaid, y rhai sydd yn offrymmu rhoddion, yn ol y ddeddf." Oddiar hyn yr ydys wedi dadleu, na ddechreuodd caracter offeiriadol Crist, cyn ei esgyniad; ac nad oedd tywallltiad ei waed yn un rhan o'i swydd offeiriadol. Ond y mae yr holl offeiriadaeth o ben bwy gilydd i'r epistol yn ymddangos yn gwrthddywedyd yr haeriad hwn. Y mae'n rhaid cofio fod Iesu yn y lle hwn yn cael ei ystyried yn Arch-offeiriad, o radd llawer uwch na'r un Aaronaidd—yn gymmaint a'i fod wedi eistedd ar ddcheulaw y Mawredd ei *hun* yn y Nefoedd, nid ger bron y drugareddfa yn y tabernacl, adn. 1 "Yn weinidog y gyssegrfa a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn," adn. 2. Iddo "gael gweinidogaeth *mwy rhagorol*," adn. 6. Yn y cyssylltiad hwn y mae yr Apostol yn dywedyd, "Canys pe bai efe, pe bai yn aros, "ar y ddaear, ni allasai fod yn offeiriad," Lefiaidd, "chwaith, (a chan hynny rhaid ei fod yn offeiriad o urdd wahanol) gan fod offeiriaid, y rhai sydd yn offrymmu rhoddion yn ol y ddeddf." Ni allasai y gyfraith, gan ei bod yn cyfyngu'r offeiriadaeth i lwyth Lefi, ganiattau i un o lwyth Juda fod yn llythyrenol offeiriad. Y mae yr anhawsder hwn yn cael ei ragflaenu o hyd gan y sylwad nad oed Crist yn offeiriad yn ol sefydliadau cyfraith Moses, eithr yn ol urdd Melchisedec (yr hwn oedd yn sier yn offeiriad tra yr ydoedd yn aros ar y ddaear), h.y., yn unig megis yn anymddibynnol ar Aaron a Lefi. Ni allaf fi weled un rheswm oddiwrth y rhan hyn, i feddwl na allasai Crist mewn dull cyffelybiaethol, gael edrych arno, tra yr oedd ar y ddaear, fel y cyfryw offeiriad ag oedd Melchizedec. Y mae awdwr yr epistol, Heb. v. 5, 6, 7, yn ol cymmwys-o at ein Harglwydd yr hyn sydd ysgrifenedig, "Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchizedec," yn myned yn mlaen i ddywedyd am dano, "Yr hwn *yn nyddiau ei gnawd*, gwedi iddo [megis offeiriad] trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddiau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth, &c." Yma yr ydym yn gweled Iesu yn cael ei ddarlunio yn gyffelybiaethol tra ar y ddaear, megis offeiriad yn offrymmu i fynu aberth gweddi drosto ei hun. Ar y dyb wrthwynebol, fe ganlynai, na ddarfu iddo ef chwaith offrymmu ei hun fel *aberth* ar y groes, h.y., nad oedd ei farwolaeth (mewn ystyr gyffelybiaethol) yn *aberthol*. Yr hyn ni allaf dybied ei fod yn wir.

fynych yn gweled ein Harglwydd yn cael ei gydnabod iddo ef, gan ei fod yn dwyn pechodau'r bobl gydâg ef, i'r anialwch, lle na chafid hwynt mwyach. Mewn perthynas i'r Iesu, y mae yn ysgrifenedig yn ein cyfleithad ni, 1 Pedr ii. 24, "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren." Yma, yr ydwyf yn meddwl, y mae genmym gyfeiriad at yr arfer o'n blaen, wedi ei gwblgolli i'r darllenydd Saesneg a Chymraeg. Yr ymadrodd a ddylasai fod, "Yr hwn ei hun a ddug ymaith ein pechodau," pechodau a aethant heibio y troedigion cyntaf, "ar ei gorph, I'R pren:" *epi to exiwlon.* Efe a'u dugodd hwynt i'r groes i gael eu gosod i farwolaeth gydâg ef. Ac nid yw'r ymadrodd yn fwy garw yn yr achos hwn, nâ phan yr ydym yn darllain am *groeshoelio'r* cnawd, a'i wyniau a'i chwantau, Gal. v. 24, am groeshoelio ein hen ddyn ni, ein blaenorol ddyn; "Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein caracter blaenorol ni gydag ef," h. y. yn gystal a Christ, Rhuf. vi. 6, a *dirymmu* holl *gorph* pechod; am *farwhau*, gosod i farwolaeth, weithredoedd y cnawd yr achodau ag ydynt lygredig, godineb—aflendid, Col iii. 5—am fod ein Harglwydd yn *cymmeryd* ysgrifen-law yr ordinhadau *oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes,* ii. 14.

Yr ydym yn cwrdd â chyfeiriad arall at y bweh diangol; Heb. ix. 28; "Felly Crist hefyd wedi ei offrymmu unwaith," ei osod yn fyw ger bron yr Arglwydd, "i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys, &c." Ni all ein Harglwydd yn nu o'r siamplau hyn gael ei ystyried fel *aberth;* oblegid ni ddywedir byth am un aberth Lefiaidd ei fod *yn dwyn ymaith* bechod. Drachefn, y mae ein Harglwydd yn cael ei alw gan y Bedyddiwr, "Oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd;" Ioan i. 29. Ac ni all yr ymadroddd hwn chwaith fod yn cyferio at aberth deddfol, o herwydd y rheswm ydys yn awr newydd grybwyll. Fe all fod at y bweh diangol. Etto fe all Crist gael ei alw yn *oen* oddiwrth ddiniweidrwydd ei fywyd, a'i waith yn *tynnu ymaith bechodau'r byd,* neu yn *tynnu pechod allan o'r byd,* a all, yn y lle hwn, ddwyn perthynas yn unig at effaith ei bregethiad a'i siampl.

Pan oedd y cymmod wedi cael ei wneuthur, a'r bweh diangol wedi cael ei ollwng ymaith i'r anialweh, yr oedd cyrph yr anifeiliaid hynny, gwaed y rhai oedd wedi ei ddwyn gan yr arch-offeiriad i'r cyssegr, yn cael eu llosgi *tu allan i'r porth:* o herwydd pa ham, Iesu hefyd, fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, fel y byddai yn gwbl debyg i'r pech-aberth, "a ddyoddefodd *y tu allan i'r porth;* Heb. xiii. 12.

Yr ydys wedi dadlen, pa un a boed oen y pasc yn briodol aberth. Nid yw yn ein pwrpas presennol i chwilio'r ddadl hon. Ni chawn ni ond yn unig cymmeryd sylw o'r defnydd a wneir o'r sefydliad gan yr apostolion, pan y maent yn llefaru am farwolaeth Crist. Ar y prydnawn blaenorol i'w gwaredigaeth o'r Aipht, yr oedd pob un o gymmuleidfa Israel yn cael gorchymmyn i gymmeryd oen *perffaith-gwbl* i'w ladd; i gymmeryd y gwaed a'i osod ar ddau ystlys-bost, ac ar gappan drws y tai y bwyttaent ef ynddynt. Y gwaed hwn oedd i fod yn *arwydd* ar y tai lle'r oeddent hwy: o herwydd yr oedd yr Arglwydd y nos honno i fyned trwy wlad yr Aipht; ond pan welai ef y gwaed, yr oedd i fyned heibio tai yr Israeliaid,* ar y rhai nid oedd y plâ i fod, i'w dinystrio hwy pan darawid yr Aiphtiaid; Ecs. xii. 3—14. Megis ag

* "Y meddwl cyffredin am fynediad Duw heibio i dai yr Israeliaid, yw, iddo, wrth fyned trwy wlad yr Aipht, i daro y cyntaf-anedig, fyned, neu neidio heibio, tai yr Israeliaid, a phetdio eu taro hwynt, gan weled y gwaed ar ddrysau eu tai. Ond nid nid dyma'r lawn feddwl, a fydd amlwg, wrth ystyried geiriau yr hanesydd sanctaidd, lle y mae ef yn rhoddi desgrifiad pendant o'r weithred. 'O herwydd yr Arglwydd a dramwya i daro yr Aiphtiaid; a phan welo efe y gwaed ar gappan y drws, ac ar y ddau ystlys-bost, yna yr Arglwydd a â heibio (neu a neidia yn mlaen) i'r drws, ac ni âd i'r dinystrydd ddyfod i mewn i'eh tai ohwl i ddinystrio.'—Ecs. xii 23. Yma y mae yn amlwg ddau wahanol weithredydd, â'r hyn nid yw y meddwl *o fynediad heibio* yn gysson; o herwydd nid yw hwnnw yn tybied ond un gweithredydd. Y ddau weithredydd ydynt yr angel dinystriol yn tramwyo i daro pob tŷ; a Jehofa, yr amddiffynydd, yn cadw gydag ef; a'r hwn wrth weled drwg Israeliad wedi ei nodi â gwaed, yr arwydd gorchymmynedig, sydd yn neidio yn mlaen, yn lalla ei hun ar y ffordd gydag ysgogiad diymmwth, yn gwrthwyneba yr angel dinystriol, ac yn gorchuddio ac yn amddiffyn y tŷ rhag yr angel dinystriol, ac nid yw yn ei adael i'w daro ef." —*Esgob Lowth ar Esay* xxxi. 4.

yr oedd taenelliad y gwaed yn arwydd o ufudd-dod yr Israeliaid, yr oedd credu yng Nghrist yn arwydd o ufudd-dod yn ei ddysgyblion. Yr oedd yr ufudd-dod blaenaf yn rhyddhau yr Israeliaid oddiwrth laddiad cyffredinol; y diweddaf yn rhyddhau y crist'nogion oddiwrth ddigofaint Duw, a'r dial oedd yn bygwth byd annuwiol. Y naill oedd yn gwaredu dynion oddiwrth gaethiwed Pharao; a'r llall yn eu gwaredu oddiwrth gaeth-wasanaeth *pechod*. Yn hyn, gan hynny yr oedd y cyffelybrwydd rhwng Iesu âg oen y pasc: i bob un o honynt trwy gael ei ladd ddyfod yn foddion achubiaeth gweision Duw. Yr oedd dydd hwn eu prynedigaeth i fod yn goffadwriaeth i'r Iuddewon: yr oeddent i'w gadw yn wyl trwy ddeddf dragywyddol. Dros saith diwrnod yr oeddent i fwytta bara croyw; ac i beidio dyoddef dim bara lefeinllyd yn eu tai, ar y gosp o dorriad ymaith. A'r hyfforddiad hyn gennym, gallwn ddeall cyffelybiaeth ardderchog Paul, yr hwn sydd yn annog y crist'nogion; 1 Cor. v. 7. "Am hynny certhwch allan yr hen," blaenorol, "lefain, fel y byddoch ddilefeinllyd, megis yr ydych yn does newydd. Canys lladdwyd oen Pasc, sef Crist, drosom *ni*," dros Grist'nogion yn gystal ag Iuddewon. "Am hynny cadwn wyl" dros yr hyn sydd yn ol o'n bywyd; "nid â hen lefain nac a lefain malais a drygioni, ond â bara croyw purdeb a gwirionedd."* At brynedigaeth o gaethiwed yr Aipht, a lladdiad yr oen difrycheulyd, y mae St. Pedr yn cyfeirio, pan y mae yn dywedyd wrth y Crist'nogion, (1 Pedr i. 18.) "Gan wybod nad â phethau llygredig, megis arian neu aur, y'ch *prynwyd* oddiwrth eich ofer ymarweddiad, eithr â gwerthfawr waed Crist, megis Oen difeius a difrycheulyd." Ni bydd yn annhriodol i sylwi yn y fan hon, mai "gwerthfawr yngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei (*holl*) saint;" Ps. cxvi. 15.

Un achlysur ar yr hwn yr oedd aberth yn cael ei offrymmu ymysg yr henafiaid, oedd mynediad mewn cyfammodau, ac er eu cadarnhad; Ps l. 5. Yr oedd yr aberth yn cael ei ladd, a phob un o bleidiau'r cyfammod yn dymuno i'r ergyd oedd ef yn weled yn cael ei roddi, i ddesgyn ar dorrwr yr ymrwymiad. Y mae'r Apostol at yr Hebreaid yn darlunio marwolaeth Crist dan y gyffelybiaeth hon; (ix. 15.) Y mae yn desgrifio yr Hollalluog megis yn myned mewn cyfammod â dynion; megis yn ammodi maddeu eu pechodau aethant heibio, ar yr ammod iddynt gredu'r efengyl, a rhoddi iddynt fywyd tragywyddol ar eu gwaith yn cyd-ymffurfio â'r arferiad y mae'n orchymyn. Yn yr achos hwn y mae ein Harglwydd yn dyfod yn aberth, yr hwn trwy ei waed oedd i sicrhau yr ymrwymiad; ac a elwir yn *Gyfryngwr*, megis yn cyfryngu i roddi grym yn y cyfammod, ac i gadw y ddwy blaid dan y rhwymedigaeth.† Oddiwrth hyn yr ydym yn dysgu beth a feddylir wrth "waed y cyfammod." Heb. x, 29. Gwaed yr aberth oedd, yr hwn a dywalltwyd i'w gadarnhau ef. Wedi i Moses ffurfio ymrwymiad rhwng yr Hollalluog a meibion Israel, efe a adeiladodd allor, ac a aberthodd ychain, ac a gymmerodd y gwaed ac a'i taenellodd ar y bobl, gan ddywedyd "Wele waed y cyfammod yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi; Ecs. xxiv. 8. Mewn cyffelyb fodd y mae yr Iesu, ar ei swpper ddiweddaf wedi iddo gydmaru y gwin â'i waed, yn dywedyd wrth ei ddysgyblion, "Hwn yw fy ngwaed o'r

* Yr wyf yn cael fy argyhoeddi fod y cyfieithiad ydwyf wedi ei roddi o'r ymadrodd hwn, yn trosglwyddo gwir feddwl yr Apostol. Pa fodd y gallwn ni dybied iddo ef ysgrifenu, Certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch, Beth? yn does newydd? Nage, yn sicr, ond yn ddilefeinllyd. Fel hyn, yr wyf fi, gan hynny, yn nodi y Groeg. *ina ete (neon phurama cathôs este) azumoi*. Crist'nogion, trwy gael eu troi, a ddaethant yn gymdeithas newydd, yn does newydd; ac yn gymmaint ag mai felly yr oedd y peth yn bod, fe allasai yr Apostol yn rhesymol eu hannog hwy i adael heibio yr hen lefain (o ddrygioni). *Eortazômen*; Nid yw ef yn meddwl, "Cadwn Wyl y Pasg," ond, "Cadwn *Wyl*," fel ag yr oedd yr arfer ym mlith yr Iuddewon. Yr wyf wedi cyfieithu *ethuthe, a laddwyd*, mewn cydffurfiad a chyfieithiad Groeg a Saesneg Ecs xii. 21. Nid yw oen y Pasc un waith ond un yn cael ei alw yn aberth yn yr Hen Destament Ecs xii 27. lle mae y gair gwreiddiol, *zebach*, yn cyfodi oddiar wreiddyn ag sydd yn arwyddo lladd yn gyffredinol Deut xii. 15; 2 Bren xlii. 20 Y mae yr un ferf yn cael ei harferu Deut. xvi. 2, 5, 6. Gwel Marc xiv 12, Luc xxii. 7, Luc xxii. 7,

† Gwel yr *Ymofynydd* am Ionawr a Mawrth diweddaf, tudal 14 a 53

Testament, *cyfammod*, Newydd; Hwn yw y Testament, *cyfammod*, Newydd yn fy ngwaed, * yr hwn yr ydys yn ei dywallt drosoch a thros lawer, er maddeuant pechodau." Y mae gwin y cwppan hwn yn darlunio fy ngwaed i, yn aberth, yr hwn yn fuan a gaiff ei dywallt i gadarnhau cyfammod, ammod yr hwn, o du Dduw, fydd rhydd faddeuant yr holl bechodau aethant heibio. Oddiwrth waith Moses yn taenellu'r gwaed ar y bobl yr ydym yn darllain am "waed y taenelliad," trwy yr hwn y sicrhawyd yr oruchwyliaeth Grist'nogol," Heb. xxii. 24; ac yn canfod fod y dysgyblion yn "etholedigion i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu; 1 Pedr i 2.

Y prif reswm a'm gwnaeth i yn ofalus i grynhoi y traws-symmudiadau, dan y rhai y mae marwolaeth Crist yn cael ei chysgodi, oedd, dangos y mawr gymysgedd a raid fod yn ysgrifeniadau y rhai hynny ag ydynt wedi penderfynu cymwyso'r desgrifiadau cyffelybiaethol hyn yn eu hystyr lythyrenol; y rhai a fynnant beri i ni goelio fod ein Harglwydd ar yr un pryd yn *felldith*, yn *aberth*, yn *offeiriad*, yn *droseddwr*, ac yn *drugareddfa*; yn fwch diangol wedi ei lwytho â phechodau, bywyd yr hwn oedd yn cael ei arbed; ac yn oen difeius, yr hwn oedd yn cael ei ladd. Y cyfeiriadau gwrthwynebol hyn o angenrheidrwydd a argyhoeddant feddwl diragfarn, na all Crist gael ei ddarlunio dan un o honynt, ond mewn ail ystyr ac un anmhriodol. Ac nid yw raid i ni sylwi gyda pha chwanegol rwyddineb a phrydferthwch y mae yr holl res o enwau, wedi eu hystyried megis ffurfiau cyffelybiaethol o ymadrodd yn unig, yn deilliaw oddiwrth yr unig feddyliad, i'n Harglwydd, yn ufudd i ewyllys ei Dad, gyflwyno ei fywyd i gyflawniad o swydd, un rhan o'r hon oedd dwyn maddeuant pechodau.

Ni allaf adael y pwnc hwn heb esponio gair traws-symmudol yr hwn yn wir nid yw yn dwyn un berthynas i *ebyrth*, ond sydd wedi ei gyssylltu yn anmhriodol â hwynt, yn meddyliau Crist'nogion anllythyrenog. Y gair *reconciliation, cymmod*, wyf yn ei feddwl. Mae cyfeithwyr (*Seis.*) yr Hen Destament yn wir wedi cyfieithu yr un gair Hebraeg yn gymmysgedig trwy y geiriau *reconciliation*, ac *atonement, cymmod*. Yn yr un Epistol at yr Hebreaid fe ddywedir wrthym, fod yr arch-offeiriad yn gwneuthur *cymmod, reconciliation*, yn lle *atonement*, dros bechodau'r bobl—Rhuf. ii. 17; ac yn y Rhufeiniaid (v. 2) fe gyfarfyddir â chyfeiliornad gwrthwyneb i hwn. Ni all dim dau feddwl, pa fodd bynnag, fod yn fwy gwahanol. Yr un ydwyf yn awr i'w esponio sydd yn cyfodi oddiar y dychymyg, o fod pechaduriaid, cyn dyfodiad Crist, mewn sefyilfa o ryfel â'r Hollalluog; a thrwy ein Harglwydd i gymmod gael ei ddwyn oddiamgylch megis rhwng dwy genedl yn ymryson a'u gilydd. "Pan oeddem yn elynion," medd yr Apostol, "y'n *heddychwyd* â Duw trwy farwolaeth ei fab ef."—Rhuf. v. 10; Col. i. 21. Mewn canlyniad i hyn fe ddywedir fod *heddwch* yn cymmeryd lle. "Wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd mae gennym *heddwch* tuag at Dduw."—Rhuf. v. 1. "Wedi iddo wneuthur *heddwch* trwy waed ei groes ef—sef Crist—trwyddo ef gymmodi, pob peth ag ef ei hun."—Col. i. 20. † I'n cadarnhau yn y deongliad hwn yr ydym yn darllain am *gennadwri* yn cael ei chymmeryd i'r pwrpas. "Am hynny yr ydym ni yn genhadau dros Grist, megis pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwyddom ni, yr ydym yn erfyn dros Grist," er mwyn Crist, "cymmoder chwi â Duw." Y mae y cwbl yn cael ei egluro yn yr adnodau blaenorol. "A phob peth sydd o Dduw yr hwn a'n cymmododd ni ag ef ei hun trwy Iesu Grist; ac

* Nid gwaed pech-aberth, na gwaed offrwm dros gamwedd yw yr un a arferir yma; ond fel y sylwyd o'r blaen, gwaed offrymmau poeth, ac ebyrth hedd, Ecs. xxxiv. 5.

† Dichon ei bod yn gymmwys i egluro Eph. ii. 14—16. "Canys efe (Crist) yw ein *tangnefedd* ni; yr hwn a wnaeth y ddau (yr Iuddewon a'r Cenhedloedd) yn un, ac a ddattododd ganol-fur y gwahaniaeth rhyngom ni. Ac a ddirymmodd trwy ei gnawd ei hun y *gelyniaeth*, sef deddf y gorchymmynion, mewn ordinhadau fel y creai y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd, gan wneuthur *heddwch*; Ac fel y *cymmodai* y ddau a Duw, yn un corph trwy'r groes; wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi." Y pleidiau a ddarlunir yma, megis mewn anghydfod, ydynt yn amlwg yr Iuddewon a'r Cenhedloedd. Rhyngddynt *hwy*, gan hynny, y mae yn rhaid y mae *heddwch* a *chymmod* wedi cael ei ffurfio gan Grist. Nid yw ein Harglwydd yn yr ymadrodd hwn yn cael ei ddesgrifio megis yn cymmodi dynion â Duw; ond megis yn cymmodi dwy blaid o ddynion *a'u gilydd*, trwy eu cyssylltu hwynt yn un corph, *i wasanaeth Duw*.

a roddodd i ni (apostolion) weinidogaeth y *cymmod*, sef bod Duw yn (neu trwy) Grist, yn cymmodi y byd ag ef ei hun *heb gyfrif iddynt eu pechodau;* ac wedi gosod ynnom ni air y *cymmod*," 2 Cor. v. 18—20. Nid oes dim mwy o ddirgelwch yn y gair pan yw Duw a'i greaduriaid yn cael eu hystyried fel dwy blaid, nac sydd ynddo pan y mae Crist yn gorchymmyn i'r dysgybl "*cymmoder* di a'th frawd," neu pan y mae Paul yn gorchymmyn i'r wraig i gymmeryd ei chymmodi â'i gwr. Ac ni allwn ni ddim honni fod y geiriad ddim chwaneg nag un cyffelybiaethol, hyd oni phrofom, fod y pechaduriaid hynny, fel y Titaniaid yn y chwedl, wedi gwueuthur rhyfel â'r Nefoedd.

Mi a gaf ddiweddu trwy sylwi, yn gymmaint a'n bod ni o'r oes hon a'r wlad hon wedi cael ein geni o rieni Crist'nogol ac yngoleuni yr Efengyl, nad oes gan *aberth* Crist un effaith pwy bynnag, gyda golwg ar neb pechodau a allom ni fod yn euog o honynt. Yr ydym ni yn yr un sefyllfa ag yr oedd y dychweledigion cyntaf ar ol iddynt gofleidio'r ffydd, a derbyn y rhodd, nad oedd byth i gael ei hail-roddi, o faddeuant rhad yr holl droseddiadau aethant heibio. Gan wasgu ar ymarweddiad rhinweddol, megys yr unig ffordd i sicrhau cymmeradwyaeth, y dydd olaf, y mae'r Apostol yn annerch yr Hebreaid âg annogaeth ddifrifol, o-gyd-gymmwysiadol attom ein hunain,—"Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirioncdd, nid oes *aberth dros bechodau* wedi ei adael *mwyach*. Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr;" Heb. x. 26, 27.—*Commentaries and Essays, Vol.* ii., *No.* 22.

SEFYLLFA YR *YMOFYNYDD*—AT EIN DARLLENWYR.

Y MAE cyfeiriadau yn llythyr Mr. Jones, Aberdâr, ar ddechreu y Rhifyn hwn, ag sy'n galw am air neu ddau o eglurhad oddiwrthym; ac, yn enwedig ynghylch y tebygolrwydd neu yr anhebygolrwydd o barhad yr *Ymofynydd*, ar ol y flwyddyn hon. I'r hyn orchwyl, er nad ydym ar hyn o bryd mor barod ag y dymunem fod, etto teimlwn nas byddai yn iawn i ni adael ein derbynwyr a'n ewyllyswyr da, dan fwy o ansicrwydd ac amheuaeth nag y sydd yn anocheladwy.

Ein bwriad ydoedd, i osod ein golygiadau ynghylch y peth ger bron ein darllenwyr, yn y Rhifyn nesaf; ar ol i ni, yn y cyfamser, gymeryd dan adolygiad ac ystyriaeth gyfrifon yr *Ymofynydd* a'i helynt yn ystod y chwech mlynedd o'i fodoliaeth, ac ymgynghori a'r rhai hynny o'n cyfeillion a wyddem eu bod yn fawr eu gofal am y Cyhoeddiad. Ond ar y cyfan, nid oes genym le i achwyn am fod cyfeiriadau Mr. J. wedi ein rhagflaenu, gan ein cymmell ni i osod yn ddioedi ger bron ein darllenwyr, gymaint o hysbysrwydd ag sydd yn awr o fewn ein cyrraedd.

Mae'n wir nad ydym etto wedi cael y cyfleusdra a ddymunasem o gyfrinachu ar y pwngc ag amryw o'r cyfryw gyfeillion. Ond beth am hynny? *Ex nihilo nihil fit:* nid oes dim i'w gasglu nac i'w ddisgwyl oddiwrth beth na fu. Y mae yn bossibl braidd y buasai y cyfryw gyfrinach i derfynu yn ein bod ni yn alluog i hysbysu, fod golygiaeth yr *Ymofynydd* ar gael ei throsglwyddo i ddwylaw eraill (yr hyn a fuasai yn dra dymunol genym ni, ar amryw ystyriaethau), a bod gwell trefniadau ar gael eu gwneuthur tuag at sicrhau llwyddiant a defnyddioldeb y Cyhoeddiad. Nis byddai yn deg nac yn weddus i ni raflaenu y cyfryw benderfyniadau dymunol. Am hysbysiad mwy cyflawn, ynghylch y pethau hyny, rhaid i'n darllenwyr aros yn amyneddgar am enyd bach. Ond gyda golwg ar y gyfrinach a fwriadesid (yr hon, modd bynag, a wneir i ryw fesur yn afreidiol gan yr amlygiad presen-

nol); gan nad pa siomedigaeth a gawsem o ran ein taer ddymuniad i gael ein rhyddhau oddiwrth ein llafur golygyddol, ac i weled gwell trefniadau ar droed, y mae un peth ag y buasem yn dra hyderus yn ei gylch; sef, y buasai y cyfryw gyfeillion i'r *Ymofynydd*—ar ol cyflawn ystyriaeth o'r amgylchiadau—i gwbl gytuno â ni, ar y priodoldeb, ïe, a'r angenrheidrwydd o gadw y Cyhoeddiad ar ei draed am ryw dymmor etto. Ond i beidio â rhagflaenu barn, ni ddywedwn ragor yn awr ar hyn yna o beth. Os ydym wedi camsynied, fe geir gweled hyny ond odid yn ein Rhifyn nesaf.

Beth bynag am eraill, y mae yn rhydd i ni ddywedyd drosom ein hunain; ac, ar ol yr adolygiad a wnaethom o gyfrifon a helynt yr *Ymofynydd* oddiar ei gychwyniad hyd yn awr—ac yn ol yr hyn a wyddom ni am ei sefyllfa bresenol, a'r lles mawr y mae wedi ei wneud, ac yn parhau i wneuthur—a'r golled a deimlid bellach o fod hebddo, ynghyd a'r addewidion y sydd o gyfnerth iddo wrth raid, ac mor belled ag y byddo ar ein llaw ni i wneuthur rhyw beth drosto—ein barn benderfynol yw, y dylai y Cyhoeddiad gael ei gario yn y blaen. Disgwyliwn glywed maes o law, trwy ein Dosbarthwyr, p'un ai ydyw y cyhoedd—hyny yw, y derbynwyr—o'r un farn ai peidio. Arnynt hwy yn bennaf, os nid yn hollol, yr ymddibyna parhad ein Cyhoeddiad. Rhaid i ni gael dywedyd, yn y fan yma, ei bod yn ofynol i ymegnio i gael ychwaneg o dderbynwyr, neu ynte i gael trefn o gymmorth gyfattebol, er mwyn gosod yr *Ymofynydd* mewn sefyllfa foddhaol.

Yr ydym yn credu y gellid ychwanegu y nifer, gant neu ddau, heb ond ychydig o ymdrech ac ychydig o aberthiad ar ran y rhai ydynt yn meddu ar dda y byd hwn. Pe y gwneid hyny, a thalu yn weddol gyson, byddai rhyw ychydig dros ben ar gyfer traul a llafur y Golygydd a'i gynnorthwywyr. Yr ydym yn gallu gwneuthur y cynnygiad hwn gyda mwy o hyfdra, am ein bod yn disgwyl yn obeithiol y bydd i un o'n cyfeillion i gymeryd arno y swydd olygyddol yn ein lle ni.

Cael gweled yr *Ymofynydd* yn cyflawni ei waith yn anrhydeddus ac yn effeithiol, er lles i'r Cymry, ydyw gwir ddymuniad

Y Golygydd.

MENW AB TEIRGWAEDD.

Mr. Ymofynydd,—Y mae y Bardd Cyfrin yn erfyn i mi gymmeryd ei *air* ef, yn lle prawf, mai Menw cyntaf yr Hindooaid ydyw Menw ab Teirgwaedd y Derwyddon, pa un ai dyn-fwytawyr *(cannibals) Scandinavia*, fel y dywed rhai, neu y dymon oeddent yn gwledda wrth Lech-y-gawres yma thraw oeddent, nid ydyw o bwys. Ar yr un pryd y mae yn addef mai mab yr haul ydoedd Menw yr Indiaid; ond gwyr pob un, *ond derwydd*, mai corph sylweddol ydyw yr haul, ac na chenedlodd fab erioed. Duw nefoedd a daear a greodd yr haul, Adda, a phob bod arall. Yn yr *Institutes* (gwel tudal. 204. rhif Medi) dywed Menw cyntaf yr Hindooaid mai y Viraj a'i creodd ef allan o hono ei hun; ac mai yntau a greodd y byd gweledig a'i drigolion rhesymmol ac afresymmol, hynny ydyw Adda, sef, Menw ab Teirgwaedd gwŷr y Nod ac oll o'r bywydolion.

Yn ei attebiad i Mr. Stephens, mae y Bardd yn addef fod ei haeriadau yng nghylch Bibl y Cymry a ysgrifenwyd gan Adda (a'r hwn sydd yn awr yn ei feddiant ef) ar ryw beth anghydmarol mwy parhaus na'r llechau ar fynydd Sinai, yn ymddangos "fel *haeriad* anwireddus." Ond pa fodd y mae yn profi nad ydyw "hyn," fel yr ymddengys, mewn gwirionedd, yn anwiredd? Fel hyn ddarllenydd; "*Ond tystiaf ar fy* ngair bardd *ei fod yn berffaith wirionedd!* "Gair Bardd!!" Beth ydyw

ei werth? Darllened y myfyrgar a phwyllog "Hanes Taliesin ben Beirdd," ac yno y gwel athrawiaeth y trawseneidiad yn ei pherffeithrwydd; neu darllened "Cân Ifan y Salmwr," gan Iolo Morganwg; ac os nad ydwyf yn camsyniaid yn ddirfawr,* efe a bwylla, o hyny allan, ac a ystyria beth ydyw y *prawf* dros y *gair*. A raid i'r rhai ydynt yn gwadu *anffaeledigrwydd* y Pab o Rufain, dderbyn gair dyn sydd yn dywedyd mai Menw cyntaf yr Indiaid ydyw ei Fenw ab Teirgwaedd ef?

Yn nesaf, am hanes creadigaeth y byd gan Iolo Morganwg, a ddyfynir gan y Bardd Cyfrin, yn yr *Ymofynydd* am fis Ebrill, fel hyn:—"Duw cyn byw na bod ond ei hunan, a ddadganes ei enw ar lafar * * * ac yn gythrym a'r gair bu bloedd gorfoledd y bydoedd, a phob hanfod byw yn llammu i fodoliaeth * * * Menw ab Teirgwaedd glywes y llafar, ac a weles y goleuni, ac a wnaeth lun llafar enw Duw," &c. Ie, Menw, cyn ei greu, ac, o ganlyniad, heb lygaid, clustiau, na phen, yn clywed, ac yn gweled!! Digon, ar hyn, yw dywedyd, mai y Bardd Cyfrin, "Iolo Morganwg a'i dywawd."

Os oes gan y Beirdd Cyfrin, yn eu Beibl, ryw wybodaeth o ragorach na'r Dadguddiad Dwyfawl, rhaid fod pechod yn gorwedd wrth eu drysau am beidio ei amlygu, fyrdd o weithiau yn waeth na'r drygioni a dynnodd ddinystr ar Sodom a Gomorrah.

Mae y Bardd Cyfrin yn awgrymmu y bydd i mi, ryw amser, i dderbyn y *sothach* gorwyllt yng nghylch y Nod Cyfrin. Boed fel y bo, ewyllys yr Arglwydd a wneler. Os felly y bydd, yr ydwyf yn credu y cytuna y darllenydd *iawn-bwyll* a mi, mai fy lle addas y pryd hwnnw, fydd rhyw Amgeleddfa Lloerigion *(Lunatic Asylum)*, ac yno, i'm gwaedu hyd lewyg, ac eillio fy mhen a'i flistro, i ymdrechu fy mwyn i'm iawnbwyll unwaith etto.

Yn ol ei brophwydoliaeth ef, daw y dydd arnaf, yn yr hwn y credaf fod Paganiaeth y Magiaid, Zoroaster, a'u disgyblion byrbwyll, y derwyddon, yn hynach a *mwy gwirioneddol* nac ysgrifeniadau Moses a'r Prophwydi. Diau y byddaf yn llefain allan ar y dydd hwnnw, yn iaith offeiriad y Pabyddion, "*Credo quia impossibile*," hynny ydyw, "Yr ydwyf yn ei gredu am ei fod yn annichonadwy."

Mr. Ymofynydd,—Ni buaswn yn gwneuthur un sylw o baganiaeth y Bardd Cyfrin, oni bai fod yr *Ymofynydd* yn cael ei wrthod am i chwi gyhoeddi y faith *sothach* gorwyllt ynddo. Yn wir, nid ydyw y "masgal" o werth, a thra thebyg fod y gwyfyn wedi llygru y "cnewllyn" yn llwch.

Ydwyf, &c.,
J. Jones.

YCHYDIG O HANES BYWYD A PHROFIAD GREFYDDOL JOHN DODESARE HANDY.—(*Parhad o tud.* 240).

Fe gafodd ein cyfeillion, William Andrews a'i wraig, Mrs. Walton, a'i mhab, Mr. Richard Walton, a William Hall, eu bedyddio gan Mr. Foster a Mr. Moore, yn Rogate, lle y ffurfiasom ein hunain yn Eglwys, ac y cwrddsom bob Dydd yr Arglwydd yn nhy ein cyfaill William Andrews, yr hwn oedd o'r blaen wedi ei *lisenso* gan yr Independiaid. Yr oeddem yn treulio dydd yr Arglwydd gyda'n gilydd (naw o honom) yn darllen yr Ysgrythyrau, a chanu a moli Duw.

Yr oedd ein cyfaill Andrews yn pregethu i ni ddwywaith yn y dydd. Yr oedd Mr. Foster a Mr. Moore yn dod yn fynych i ymweled â ni, ac yn rhoddi llawer o gyssur i ni, ac yn ein cryfhau yn y ffydd.

Wedi hynny yn agos i chwech mis daeth Mr. Brent gweinidog cymdeithas y Bedyddwyr Cyffredinol, St. Thomas' street, Portsmouth, ac amryw gyfeillion Cristnogaidd eraill i ymweled â ni; ond pa fodd y cawsant hwy ni allan, ni allem ni ddywedyd am nad oeddem yn gwybod fod y fath eglwys i gael yn Portsmouth. Hwy a anfonasant i ni rai llyfrau ar destunau crefyddol, y rhai a agorasant ein meddyliau yn fawr, a'n cadarnhausant yn ein golygiadau.

Yma rhaid i mi gymmeryd fy nghennad, yn enw fy nghyfeillion yn Rogate, i dalu ein dioleh gwrosog i'r gweinidogion, Mr. Foster, Mr. Moore, a Mr. Brent, ac hefyd i holl aelodau eu heglwysi, am eu caredigrwydd a'u sylw o honom ni.

Tramgwyddodd fy meistr yn fawr wrthyf, am ymadael a'r Eglwys Sefydledig, i'r hon y dygodd fi i fynu. Yr oedd yn ddigllon iawn

* Mynir i ni i gredu mai y rhai hyn ydyw amddiffynwyr "Y Gwir yn erbyn y byd."

wrthyf—dywedodd wrthyf y dylaswn gael fy ngyru o'r wlad am wadu y Drindod, ac fod cyfraith wedi ei gwneuthur i'r dyben hynny yn nheyrnasiad un o'r brenhinoedd; ac y dylasai pob un a wado y Drindod gael ei ddanfon o'r wlad; a gorchymynodd i mi fyned i'r eglwys; ond mi a ddywedais wrtho nad oeddwn yn hoffi yr athrawiaeth o dri Duw yn un, neu Duw Dad, Duw Fab, a Duw Yspryd Glân; dywedais nad oedd y fath air a *Duw Ysbryd Glân* yn y Beibl. Ambell waith yr oedd yn ymressymmu â mi yn nghylch yr Ysgrythyrau, ond o'r diwedd dywedodd fy meistress wrtho, nad oedd yn un dyben siarad á mi yn nghylch yr ysgrythyrâu am fy mod yn gwybod mwy am danynt nag efe. Wedi hynny siaradodd â mi yng nghylch y Llyfr Gweddi Gyffredin. Dywedais wrtho fod rhai gweddiau da yn y llyfr hwnnw, ond fod Credo St. Athanasius yr hon oedd ynddo, yn cadw miloedd o'r eglwys. Dywedodd, fod rhaid iddo gyfaddef na ddylasai'r Credo honno ddim bod yn y llyfr, ag ei fod yn credu mai credo Babaidd oedd.

Yr oedd fy meistr a meistres ar wahanol amserau yn gofyn i weinidogion y plwyf am fy annogi i ddychwelyd i'r eglwys; yr oeddent yn siarad llawer â mi, ond yr oeddwn i yn eu hatteb o'r Ysgrythyrau cystadl ag y gall'swn yr holl destunau a rhesymau a allasent ddwyn yn mlaen; o'r diwedd gorfu iddynt fy rhoi i fynu. Ond cefais beth arall i ymdrechu ag ef: cafodd fy meistres gan rai boneddigesau o'i hadnabyddiaeth i'm annog i droi at yr eglwys etto; un foneddiges yn bennodol a ddaeth a llawer iawn o rannau o'r Ysgrythyr i brofi y Drindod, ac fod Crist yn Hollalluog Dduw, ac yn Fab Duw. Buais yn ymddiddan â hi lawer awr; yr oedd fy meistres yn fy anfon atti yn fynych i'r pwrpas hynny.

Rhaid i mi ddywedyd, ei bod yn foneddiges synhwyrol iawn, ac yr oeddwn yn hoffi ei hymadrodd yn fawr, ac yr oedd yn garedig iawn i mi; ond yn lle fy nhroi yn ol i'r Eglwys Sefydledig, y mae wedi fy nghadarnhau yn fy ngolygiadau presennol, trwy roddi benthyg llyfrau i mi, y rhai oedd hi yn feddwl a brofent y Drindod; yn eu plith yr oedd un a elwid "Athrawiaeth Gatholig y Drindod," gan Mr. Jones, Rector Pluckley; pa fwyaf y darllenswn yn hwnnw, mwyaf i gyd oeddwn yn gweled Undod Duw, am ei fod yn gwrthddywedyd ei hunan. O'r diwedd gorfu i'r foneddiges hon fy rhoddi i fynu, ond y mae yn dda gennyf ddywedyd, ni newidiodd byth o'i charedigrwydd tuag attaf.

Yn Midhurst, lle buais yn byw rhai blynyddau, yr oedd y bobl yn arfer dywedyd — "hen ffol yw John Handy — nid yw ei Feibl ef ddim yr un peth a Beibl dyn arall," am nad oeddwn i yn credu y Drindod fel hwynt, yr hon sydd yn gwrthddywedyd ei hun. Dywedais wrthynt am gydmæru fy Meibl a'i Beiblau eu hunain ac nid cuog farnu fy Meibl i cyn ei weled. Fel hyn yr ydwyf wedi dioddef llawer o erledigaeth er mwyn y gwirionedd.

Bu fy meistr farw yn 1812, pan y collais gyfaill gwir garedig ac haelionus; fe'm triniodd i yn dyner iawn hyd ddydd ei farwolaeth. Parhaes gyda fy meistress nes iddi farw yn y flwyddyn 1814, ac ni fu erioed well meistres na gwell Cristion yn y byd. Gobeithio y tal yr Hollalluog iddi am ei daioni idd ei gwas Negroaidd tlawd.

Aethum wedi hyn i fyw gyda chwaer fy niweddar feistr yn Woolwich. Pan oeddwn yno, daeth gwr bonheddig un prydnawn i alw ar fy meistres, enw y gwr bonheddig yw Dr. G., o'r Royal Academy yn Woolwich. Galwodd fy meistres arnaf i'r parlwr, a dywedodd fod y gwr bonheddig am siarad a mi. Yr oedd am gael gwybod fy ngolygiadau crefyddol, a'r rheswm p'am y gadewais yr Eglwys Sefydledig. Yr atteb a wnaethum oedd, nad oedd ei haddoliad ddim yn unol ag Ysgrythyr y gwirionedd, am ei fod yn addoli mwy o dduwiau nag un; oni ddywedodd Duw, "na fydded i ti dduwiau ereill ond myfi;" etto, y mae ein Harglwydd yn dywedyd "Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, dan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef;" nid *hwynt* ond *ef*, canys Ysbryd yw Duw. Daeth y gwr bonheddig a llawer o rannau o'r Ysgrythyr i brofi fod Crist yn Hollalluog Dduw; ond mi a'i attebais ef trwy yr ysgrythyrau, Rhaid i mi roddi i'r gwr bonheddig yr hyn sydd ddyledus iddo, canys ymddygodd tuag attaf fel gwr bonheddig. Dywedodd wrthyf am gymmeryd amser fy hun wrth lefaru, a pheidio a bod mewn sut frys, (mae'n ddrwg genyf ddywedyd wrth y ddarllenydd bod attal arnaf). Yr wyf yn falch iawn wrth feddwl i mi gael yr anrhydedd o siarad a'r fath wr boneddig dysgedig ar destunau crefyddol. Dywedodd wrth fy meistres, wedi i mi fyned, ei fod yn meddwl nad oedd un yn Woolwich yn alluog i siarad a mi ar destunau Ysgrythyrol.

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD CWARTEROL YR HYDREF.

Cynnaliwyd Cyfarfod Cwarterol Undodiaid y Deheubarth, yn St. Clears (trwy ohiriad), dydd Iau, y 6fed o Hydref. Dechreuwyd Cyfarfod y prydnawn o'r blaen, trwy ddarllen a gweddi, gan Mr. J. Jones, Aberdâr, a phregethodd Mr. James, Gellionnen. Boreu dydd Iau, am 10 o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad gan Mr. J. E. Jones, Penybont, a phregethodd Mr. T. Thomas, Pantydefaid, oddiwrth Ioan xv. 3. Yn y gynnadledd a ganlynodd, Mr. D. Beynon, gweinidog y lle, oedd yn gadeirydd; a'r pwngc ydoedd, "Cyfeiliornad Anfoddol." Llefarwyd ar y pwngc yn bur helaeth, heb anghofio'r cwestiwn, A ydyw ddim *pechod* hefyd yn *anfoddol?* Ymddangosai nad oedd ond ychydig—os dim—o wahaniaeth barn. Etto, carem yn fawr weled crynodeb o resymau'r ddadl, yn yr *Ymofynydd.*

Penderfynwyd ar fod y Cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn y Tŷ Cwrdd Newydd ar Gefn-coed-y-cymmer; fel arferol, y Mercher a Iau cyntaf ar ol Nadolig—Dr. Lloyd o Gaerfyrddin, i bregethu y bregeth, yn Gymraeg, a Mr. J. E. Jones, Penybont, i bregethu o'i flaen, yn Saesneg. Pwngc y Gynnadledd fydd, "Y gwahaniaeth rhwng pregethu yn ymarferol a phregethu yn athrawiaethol." Diweddwyd y Cyfarfod hwn trwy weddi a chanu mawl. Ac yna, wedi i'r gweinidogion a chyfeillion eraill gydgyfranogi o giniaw ddu a ddarparesid ar draul y gynnulleidfa, ymadawyd, ac aeth pob un i'w fan. Da oedd genym weled, nad yw llafur ein cyfaill Beynon, er maint yr anhawsderau, ddim yn gwbl ofer yn ei gymydogaeth. Gobeithiwn gael cyfarfod etto ag ef a'i gynnulleidfa yn Saint Clears. I.

Y RHYFEL RHWNG TWRCI A RWSSIA.

Y mae yr awyrgylch boliticaidd yn parhau i fod yn bur gymylog. Ni ellir ymddibynu ar yr haner o newyddion y mis diweddaf ynghylch beth a wnaed gan y Tyrciaid neu y Rwssiaid ar y naill lan i'r Danube a'r llall; ac yn enwedig yr hysbysiadau a gaed trwy y *telegraph* o bryd i bryd, gan mor groes y maent i'w gilydd. Y mae yn mhell o fod yn sier nad yw y Czar yn benderfynol i gario y rhyfel ymlaen trwy bob trwch. Y mae yn sier, modd bynag, ddarfod i'r Sultan gyhoeddi rhyfel tua dechreu'r mis diweddaf, gan roddi rhybudd i'r Rwssiaid i ymadael a'r tywysogaethau cyn pen 15 diwrnod; yr hyn nis gwnaethant. Ac ar y 24ain, pan ddaeth yr amser i ben, torrodd rhyfel allan mewn gwirionedd. Yn y cyfamser yr oedd y ddwy blaid yn gwneuthur paroloadau ar gyfer yr ymdrech ar y Danube ac hefyd yn Asia. A braidd y gellid disgwyl na fuasai i ryw rai o'r lluoedd oeddent mor gyffroedig ac ymron wyneb yn wyneb, i ymosod ar eu gilydd. Ac am hyny yr ydys yn rhoddi coel i'r hysbysiad a ymddangosodd yn *Moniteur Paris* ar y 28ain, ac a anfonwyd o Bucharest ar y 22ain, "ddarfod i lynges fechan o eiddo y Rwssiaid ymosod ac amddiffynfa y Tyrciaid yn Isactcha, rhwng Remi ac Ismail. Yn yr ymgyrch lladdwyd o'r Rwssiaid, is-gadfridog *(lieutenant-general)* tri o'r prif-swyddogion, a deuddeg o'r gwŷr, a chlwyfwyd haner cant. Ond honant eu bod wedi gosod yr amddiffynfa ar dân."

Hysbysir hefyd fod Omar Pacha a'r fyddin Dyrcaidd yn bwriadu croesi y Danube ar y llawn lloer cyntaf. Parodd y newyddion hyn gryn ostyngiad yn mhris y *funds* yn Paris ac yn Llundain. Y newydd diweddaf sydd wedi'n cyrhaeddyd ydyw, fod arfattaliad *(armistice)* wedi cymeryd lle rhwng byddinoedd Twrci a Rwssia; o leiaf hyd y cyntaf o Dachwedd.

Y mae llyngesi Ffraingc a Lloegr yn awr wrth angor yn môr Marmora yn ymyl Constantinopl.

Esgorodd

Hydref y 3dd, gwraig T. J. Hughes, ysw., meddyg, ar fab ac etifedd, yn Llwyngroes, Llanwnen, swydd Aberteifi.

Boed llwydd i'r impyn, ieuanc un;
I dyfu'n ddyn oedranus;
A'i duedd fo i noddi'r gwan,
Yn mhob ryw fan anghenus;
Pob dawn a dysg f'o iddo'n urdd,
Er dilyn ffyrdd ei deidiau,
A chyfoeth byd f'o iddo'n wledd,
Hir oes a hedd hyd angau.

Llanwnen. D. J.

Marwolaeth.

Hydref yr 8fed, yn 57 oed, Anne, gwraig Thomas Lewis, Croes Inn, Llanwnen, wedi dyoddef mewn amynedd gystudd maith a phoenus iawn. Ar ddydd Mawrth canlynol gosodwyd ei gweddillion yn nhŷ ei hir gartref, yn monwent Capel-y-groes, pryd y pregethodd y Parch. Rees Davies, gweinidog y lle, ar yr achlysur, yn ddwys, teimladwy, a phwrpasol iawn, oddiar 1 Ioan v. 11, 12.

Wele ing arteithiol angau—a droes,
Ry drwm i'r teimladau,
Marw oedd hoff, er vmryddhau.
O bwn ei dirfawr boenau.

D. J.

Barddoniaeth.

CWYN HEN GEFFYL.

Ton—"Calon Drom."

Un o destunau Cymreigyddion y Llew Gwyn, Merthyr, erbyn Dydd Nadolig, 1846. *Ond ni farnwyd hon yr orau ar y testun.*

Chwi rai hael-ddysg, fawr-ddysg feirddion,
A phawb o ddifrad, dyner ddwyfron,
Na chyfyngant wers efengyl;
Clywch 'nawr gyffes dlawd hen geffyl—
Gwael anifail, sy'n anafus,
Dan archollion trwy ergydion gwyr enbydus;
Ac yma'n delwi dan fy'm dolur,
Trwy flinderon, ni cha'i 'n gyson awr o gysur.

Yn iach i'r dyddiau mwyn dymunol,
Y bûm anabl egwan ebol;
Cawn rodio'r meusydd pan y mynwn,
A phori'r gorau dir a garwn!
Ond och! pan ddarfu pob difyrwch,
Fe drodd fy mwynder imi 'n drawsder ddirfawr dristwch.
Wrth gael fy'm cyrchu i erchyll garchar,
Trwy anhyfrydwch, cefais, gwelwch, achos galar.

Ni chefais harddwch byd nac urddas;
Ond pawb a'm gwthient megis caethwas,
A goddef drygnaws oer dymorau—
Rhew a barig, hwyr a borau,
A 'nghroen yn ddarnau, wedi ei ddyrnu,
Gan ddynion anfad, drwg eu bwriad, i'm dyboeni;
Na fedrent deimlo rhoi i mi damaid,
Er fod newyn chwith hen Ddobyn* wrtho'i 'n ddibaid.

Mae'f holl aelodau wedi 'mledu
A phoen erchyllaidd yn f'archolli;
Fel nad oes imi ddim ddiddanwch,
Ond rhyw oer drwstan ddirfawr dristwch,
'Nol bod trwy'r oerfel yn trafaelu—
Wrth ddrws rhyw dafarn, ar noethdir llydan cawn fy lletŷ;
Tra'r oedd fy mherchen (ddyn) amharchus,
Yn llawen besgu, wedi loesi fy nwy ystlys.

Fe orfu i mi fyn'd, er gofid
I blith y dyrfa† mewn daearfyd,
A gwneud y goreu yno, gwelwch,
Mewn du hollawl, dew dywyllwch;
Er bod mewn caddug hyll anserchog,
'Roed meibion *Pharo* arna'i 'n curo'n anhrugarog;
Ni fuasai'n rhyfedd imi'n rhywfan,
Gael i'm genau *syn ymbiliau asyn Balam.*

Er bod fy ngyrfa bron a darfod,
Mi gês i'm dryllio *oes* o drallod—
'Rwy'n ail i beiriant wedi rhydu,
A'r nerth yn hollol wedi pallu—
Yr olwg bûr, fu'n grâff a bywiog,
Wedi pylu, waith fy ngyru'n anhrugarog,
Pan ddarffwyf nychu, a'f holl afiechyd,
Yn y diwedd, rhaid yw gorwedd yn y gweryd.

Stag, Aberdâr. Y Carw Coch.

* Dobyn oedd enw Ceffyl Dafydd ab Edmwnt, yr hwn—medd hanes—a gafodd drafaelu o Langollen, yn y Gogledd, i Eisteddfod Fawr Caerfyrddin, heb gael un tamaid i'w fol.
† I blith y Glowyr a'r Mwnwyr Tanddaearol.

At ein Gohebwyr, &c.

Derbyniwyd.—J. Jones; Carw Coch; D. J.; Josephus; W. Spurrell, a T. Stephens.

☞ *Gorfu arnom, o ddiffyg lle, adael allan rai hanesion, &c., a baratoesid ar gyfer y Rhifyn hwn; barnem hefyd ei fod yn beth dymunol i gael gorphen testunau y Traethodau presenol cyn dechreu cyfrol newydd.*

Achwynwr.—*Ofer fyddai ceisio boddio pawb o'n darllenwyr, gan gymaint y maent yn amrywio yn eu chwaeth ac yn eu barn am bethau. Nis gallwn ddywedyd llai, nad yw* "y Nod Cyfrin," *wedi cael mwy o le yn yr* Ymofynydd *nag y mae'r testun yn ei deilyngu. Nid y'm ni o nifer disgyblion y* "Nod." *Ond yr ydym dros gael gweled beth ellir ei ddywedyd dros y naill ochr o'r ddadl fel y llall.*

☞ Josephus.—*Dychwelir y Traethawd. Nid ydyw yn taro i ni ei gyhoeddi* yn ei ddull presenol. *Byddem yn ddiolchgar i'n gohebydd am eglurhad o'r gwahaniaeth sydd rhwng* "byd ysbrydol" *a* "byd dyfodol;" *fel hefyd am grynodeb o'r rhesymau a ellir eu dwyn i brofi y naill neu y llall—un ai* trwy *neu* heb *help dadguddiad; ond i gadw ar wahan bethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt.*

PEN-Y-BONT ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.